## Partneriaeth Gwaith Ieuenctid ac Ysgolion

# Agwedd Presenoldeb & Chyflawniad

### Medi 1998 - Mawrth 2000

**Sylwadau a dadansoddiad ar sail gwerthusiad ffurfiannol o ddeunaw mis cyntaf y rhaglen Partneriaeth Gwaith Ieuenctid ac Ysgolion yng Nghymru**

**Cyngor Ieuenctid Cymru**
Wales Youth Agency

# Agwedd, Presenoldeb & Chyflawniad

**© Cyngor Ieuenctid Cymru**

Mehefin 2000

ISBN 1 901850 01 3

Gellir atgynhychu'r adroddiad hwn yn ei gyfanrwydd neu'n rhannol i ddibebion addysgol anfasnachol cyhyd ag y bo'r holl ddetholiadau a ddyfynnir yn cael eu hatgynhyrchu air am air heb eu cyfaddasu a'u ffynhonnell a'u dyddiad yn cael eu datgan.

Golygwyd gan Barry Doughty

Cyngor Ieuenctid Cymru
Llys Leslie
Lôn y Llyn
Caerffili
CF83 1BQ
Tel 029 20 855700
Ffacs 029 20 855701
E-bost wya@wya.org.uk
Gwefan www.wya.org.uk

**£7.50**

# Agwedd, Presenoldeb & Chyflawniad

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| 1 Cyflwyniad | 1 |
| 2 Cefndir | 4 |
| 3 Gwaith gan Gyngor Ieuenctid Cymru | 7 |
| 4 Strwythur a rheolaeth | 8 |
| Dulliau | 9 |
| Canlyniadau i ysgolion | 10 |
| Canlyniadau a darganfyddiadau eraill | 10 |
| 5 Staffio a chyflwyno'r rhaglen | 12 |
| 6 Effaith ac ystyriaethau | 14 |
| 7 Datblygiadau mewn ymarfer gwaith ieuenctid | 16 |
| 8 Disgwyliadau, amserlenni a chanlyniadau | 19 |
| 9 Arolwg, a barnau am y prosiectau | 21 |
| Materion ymarfer | 22 |
| Achrediad dysgu | 22 |
| Gorlwytho | 22 |
| 10 Casgliadau | 24 |
| Atodiad: Amcanion, dibenion a nodau'r prosiectau | 27 |
| Ysgol Uwchradd Pen-y-Dre (Fresh Start) Merthyr Tudful | 28 |
| Rhaglen Dysgu Cefnogol 'Plant y gofelir amdanynt' Caerdydd | 31 |
| Rhondda Cynon Tâf | 34 |
| Sir Gaerfyrddin | 36 |
| Living Proof (Sefydliad gwirfoddol) Casnewydd | 38 |
| Sir Ddinbych | 41 |
| Gwynedd | 43 |
| Powys (Prosiect Mesen) | 47 |
| Geirfa | 49 |
| Cyfeiriadau | 50 |

# 1 Cyflwyniad

Ym Mhapur Gwyrdd y Llywodraeth, Rhywbeth i Bawb yw Dysgu (LIFE), neilltuodd Y Swyddfa Gymreig £300,000 yn y flwyddyn gyntaf i gyllido prosiectau. Nod y prosiectau hyn oedd dangos sut y gallai dulliau gwaith ieuenctid ar y cyd ag ysgolion, fod yn effeithiol wrth ddylanwadu ar bobl ifanc i godi eu lefelau cyrhaeddiad, presenoldeb, cymhelliad a gwella eu hagwedd at ddysgu.

Mae’r adroddiad hwn yn ystyried y ffactorau hyn ar ddiwedd deunaw mis cyntaf y prosiectau cychwynnol, yn sgil nifer o ymweliadau gan staff Cyngor Ieuenctid Cymru. Roedd y staff yn gyfrifol am fonitro a gwerthuso’r wyth prosiect cyntaf i dderbyn cyllid. Ceir yma hefyd sylwadau a wnaed gan y prosiectau yn eu cofnodion eu hunain ac mewn seminarau a gweithdai.

Comisiynodd Cyngor Ieuenctid Cymru adroddiad arall, gan ddefnyddio arbenigedd academydd blaengar a nodedig ym maes gwaith ieuenctid a pholisi cymdeithasol ym Mhrifysgol Cymru, Dr Howard Williamson. Ymgorfforwyd ei sylwadau gwerthfawr yn y ddogfen hon.

Ar ben hyn, cynhwyswyd hefyd sylwadau a wnaed gan staff Cyngor Ieuenctid Cymru a oedd yn gyfrifol am fonitro a gwerthuso’r wyth prosiect cychwynnol a dderbyniodd gyllid, ac felly hefyd sylwadau a wnaed gan brosiectau yn eu cofnodion eu hunain ac yn eu cyfraniadau i seminarau a gweithdai.

Rhwng 1992 a 1995, bu cynnydd o bedair gwaith yn nifer y gwaharddiadau parhaol o ysgolion (Parsons 1995). Yn sgil ethol y llywodraeth Lafur yn 1997, bu cryn bryder o ran polisi ynghylch dieithrio pobl ifanc o ‘ddarpariaeth y brif ffrwd’.

Dengys y dystiolaeth fod y rheini sy’n gadael yr ysgol cyn pryd am ba reswm bynnag, ac sy’n methu ag ennill cymwysterau addysgol sylfaenol, yn fwy tebygol o droseddu ac o gamdrin cyffuriau yn ogystal ag ymddieithrio o’r gweithgareddau traddodiadol a fynychir gan eu cyfoedion.

Yr oedd a wnelo adroddiad cyntaf yr Uned Dieithrwch Cymdeithasol â thriwanta a dieithrwch (Uned Dieithrwch Cymdeithasol 1998a). fel y dywed Papur Gwyn diweddar ar ddysgu ôl-16 (Adran Addysg a Chyflogaeth 1999b), cadw pobl ifanc mewn addysg a chyflawniad addysgol yw’r warant gorau y byddant yn datblygu’n oedolion llwyddiannus yn y brif ffrwd.

Yn y cyd-destun hwn ac ar sail y dystiolaeth ddiwrthdro hon y cyhoeddodd Peter Hain AS, Gweinidog yn y Swyddfa Gymreig ar y pryd, wrth lansio fersiwn Cymreig o’r papur Gwyrdd ar Ddysgu Trwy Oes ym mis Ebrill 1998, fod adnoddau ychwanegol ar gael i Gyngor Ieuenctid Cymru weinyddu wyth prosiect cychwynnol trwy Gymru.

Yr oedd y prosiectau a ddewiswyd mewn lleoliadau trefol a gwledig. Trefnwyd rhai o'r prosiectau gan sefydliadau gwirfoddol, eraill gan awdurdodau lleol. Cynhwyswyd hefyd plant y gofelir amdanynt yng Nghaerdydd. Yr oedd rhai prosiectau'n hunangynhaliol, eraill yn rhan o bartneriaeth neu o raglenni cyfredol er mwyn defnyddio adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Cafodd arferion gwaith ieuenctid derbyniad da mewn llawer o'r prosiectau, ond ymddangosai fod llawer yn dibynnu ar gymeriad ac ymroddiad y gweithwyr ieuenctid a gymerai ran.

Pwysleisiwyd yng nghasgliadau'r adroddiad fod methodoleg ac arfer gwaith ieuenctid yn cynnig ffordd ddefnyddiol ac ategol o weithio gyda'r grwp targed arbennig hwn mewn modd cadarnhaol ac adeiladol. Croesawyd a chanmolwyd y prosiectau hynny a wnaeth yn fawr o gyraeddiadau pobl ifanc trwy gynlluniau achredu amgen gan bobl eraill a ymwelodd â'r prosiectau.

Anogwyd y rhyngweithiad medrus rhwng gweithwyr ieuenctid ac ysgolion i sicrhau bod y bobl ifanc hyn yn cael eu cynnwys yn y gwahanol raglenni achredu, a gydnabuwyd wedyn yn eu cofnodion cyrhaeddiad. Bu'r dulliau hyn yn fodd i'r gwahanol asiantaethau hybu cyd-ddealltwriaeth a pharch y naill at y llall.

Fel menter ddyfeisgar ac arbrofol, sydd bellach wedi ymestyn i bob sir heblaw am un yng Nghymru, mae'r Bartneriaeth Gwaith Ieuenctid ac Ysgolion yn cynnig mwy o gwestiynau nag o atebion, ond gellir edrych arni o leiaf fel arbrawf pwysig mewn cydweithrediad.

Nid yw'r adroddiad hwn ond yn trafod deunaw mis cyntaf y prosiect, ond mae'n dangos rhai o'r problemau a'r cyfleoedd pwysig wrth daclo'r materion yn ymwneud â phobl ifanc a dieithrwch cymdeithasol.

Mae'r awgrymiadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn tynnu sylw at y ffaith bod yr ymateb i anghenion y grwpiau targed o bobl ifanc yn llawer mwy effeithiol, lle'r oedd ymrwymiad ar ran pawb i oresgyn anawsterau.

Mae casgliadau'r adroddiad yn pwysleisio'r angen am agwedd ar ran yr ysgol gyfan tuag at ddieithrwch cymdeithasol er mwyn gwella canlyniadau. Bu cynnwys rhieni, parch ymarferwyr at ei gilydd a meddwl yn ofalus am faterion cwricwlaidd i gyd yn foddion llwyddiant.

O safbwynt strategol, awgrymwyd y byddai'n rhaid i brosiectau yn y dyfodol roi mwy o sylw i ystod o faterion 'fframwaith' y gellir eu troi'n arfer effeithiol ar y maes.

Bwriad Cyngor Ieuenctid Cymru yw rhedeg cyfres o weithdai gydag ymarferwyr er mwyn rhannu dulliau o ddarparu rhaglenni cwricwlaidd amgen a chreu 'setiau o offer'. Bydd ymarferwyr wedyn yn gallu defnyddio'r offer hyn yn eu prosiectau eu hunain, gan wella ansawdd y cynnyrch sy'n cael ei ddarparu.

Ffactor arall sy'n haeddu sylw ar lefel genedlaethol gan athrawon a'r gwasanaeth ieuenctid yw ystyried sut y gall y ddwy swydd ategu ei gilydd. Trwy wneud hyn, gellir chwalu rhai o'r mythau ynghylch y gwahanol ddulliau, athrawiaethau a methodolegau a ddefnyddir gan y naill a'r llall wrth weithio gyda phobl ifanc.

Ceir braslun o'r argymhellion ar dudalen 24 yn yr adroddiad hwn. Maent yn cynnig syniadau clir a defnyddiol ar gyfer prosiectau yn y dyfodol. Dylid edrych ar yr argymhellion hyn fel arwyddion o feddylfryd y llywodraeth, fel deunydd ar gyfer trafodaethau pellach ac fel cymorth wrth bennu dull strategol o weithio gyda'r bobl ifanc hynny sydd wedi eu dieithrio o addysg yn y brif ffrwd.

Un peth na ddylid ei anwybyddu gan rai yn y gwasanaeth addysg a'r galwedigaethau ategol yw ein cyfrifoldeb i gadw pobl ifanc mor agos at ddysgu â phosibl.

# 2 Cefndir

Pwrpas Gwaith Ieuenctid

‘Pwrpas gwaith ieuenctid yw ‘Hwyluso a chefnogi twf pobl ifanc o ddibyniaeth i annibyniaeth, gan annog eu haddysg bersonol a chymdeithasol a’u helpu i chwarae rôl gadarnhaol yn natblygiad eu cymunedau a’u cymdeithas.’ Adran Addysg a Chyflogaeth (1997)

**Nodau gwaith ieuenctid yng Nghymru yw:**

- hyrwyddo cyfle cyfartal i bob person ifanc fel y gallant gyflawni eu potensial fel unigolion galluog ac aelodau o grwpiau a chymunedau;
- cynnal pobl ifanc wrth iddynt ddod yn oedolion;
- cynorthwyo pobl ifanc i ddatblygu agweddau a sgiliau a fydd yn eu galluogi i ddefnyddio’u hadnoddau personol a’u hamser yn bwrpasol.

**Mae gwaith ieuenctid felly’n cynnig cyfleoedd i bobl ifanc sy’n:**

- **ADDYSGOL -** trwy alluogi pobl ifanc i ennill y sgiliau, y wybodaeth a’r agweddau angenrheidiol i adnabod a cheisio eu hawliau a’u cyfrifoldebau fel unigolion ac fel aelodau o grwpiau a chymunedau ar lefel leol, cenedlaethol a rhyngwladol;
- **CYFRANOGOL -** trwy berthnasoedd gwirfoddol lle mae pobl ifanc yn bartneriaid yn y prosesau dysgu a’r strwythurau penderfynu sy’n effeithio eu bywydau a’u hamgylchfyd ac eiddo pobl eraill;
- **GALLUOGOL -** trwy alluogi pobl ifanc i ddeall y materion personol, cymdeithasol a gwleidyddol sy’n effeithio’u bywydau a bywydau pobl eraill a’r cymunedau y maent yn perthyn iddynt, a gweithredu arnynt;
- **MYNEGIADOL -** trwy annog a galluogi pobl ifanc i fynegi eu meddyliau, eu teimladau, eu hemosiynau, eu dyheadau a’u hunaniaeth ddiwylliannol trwy weithgareddau creadigol a heriol, yn enwedig rhai sy’n gwella’u dealltwriaeth o ddwyieithrwydd, treftadaeth a diwylliannau Cymru.

Mae gwaith ieuenctid, yn draddodiadol, wedi ei fynegi ei hun mewn sawl ffordd (Jeffs 1979, Smith 1988), er i Gynadleddau Gweinidogion diwedd yr 1980au a dechrau'r 1990au geisio bod yn benodol am ei briodoleddau (Biwro Ieuenctid Cenedlaethol 1990, Cyngor Ieuenctid Cenedlaethol 1992). Mynegwyd y rhain, fodd bynnag, ar lefel egwyddorion, a allai gorffori amrywiaeth dirfawr o ran arfer. Felly, tybiwyd bod 'gwaith ieuenctid' yn gweithredu yn ôl yr egwyddorion uchod.

Dylid llunio'r cyfleodd uchod yn y fath fodd ag i hybu cydraddoldeb i bawb trwy herio gormes ac annhegwch, trwy dderbyn gwahaniaethau'n deillio o hil, hunaniaeth rywiol, rhyw, anabledd, oed a thrwy gydnabod yr amrywiaeth diwylliannol a ieithyddol yng Nghymru.

Rhwng 1992 a 1995, cododd nifer y gwaharddiadau parhaol o'r ysgol bedair gwaith (Parsons 1995). Yn sgil ethol y Llywodraeth Lafur yn 1997, bu cryn bryder o ran polisi ynghylch 'anfodlonrwydd ieuenctid' neu 'dieithrwch ieuenctid'. Yr oedd a wnelo adroddiad cyntaf yr **Uned Dieithrwch Cymdeithasol** â thriwanta a gwaharddiadau (Uned Dieithrwch Cymdeithasol 1998b). Mae Papur Gwyn diweddar y Llywodraeth ar ddysgu ôl-16 (Adran Addysg a Chyflogaeth 1999b) yn nodi **mai aros a chyflawni mewn addysg** yw'r warant gorau y bydd pobl ifanc yn llwyddo i ddod yn oedolion yn y brif ffrwd.

Pobl ifanc mewn **gofal**, pobl ifanc o **gymdogaethau tlawd**, pobl ifanc o **deuluoedd ailgyfansoddedig**, ymhlith eraill, yw'r rhai lleiaf tebygol o fynychu'r ysgol yn rheolaidd a chyflawni'n addysgol. Fel y dadleuodd y Pwyllgor Dethol Addysg a Chyflogaeth yn ei adroddiad ar 'Plant Anfodlon' (1998), '**mae'n hanfodol bod y bobl ifanc hyn yn cadw cysylltiad mor agos â phosibl ag addysg**'.

Yng ngoleuni rhai o'r materion a nodwyd uchod, cyhoeddodd y gweinidog yn y swyddfa Gymreig ar y pryd, Peter Hain, wrth lansio'r Papur Gwyrdd Rhywbeth i Bawb yw Dysgu (LIFE) ym mis Ebrill 1998, adnoddau gwerth **£300,000** i'w dyrannu i Gyngor Ieuenctid Cymru. Yr oedd yr arian hwn i'w ddefnyddio i gyllido wyth prosiect. Bwriadwyd i'r cyllid ddangos **sut y gallai dulliau gwaith ieuenctid mewn partneriaeth ag ysgolion**, lwyddo i ddylanwadu ar bobl ifanc trwy godi eu **lefelau cyflawniad, presenoldeb a chymhelliad a gwella eu hagwedd tuag at ddysgu**.

Yr oedd diddordeb y gwleidyddion wrth ystyried dulliau gwaith ieuenctid o weithio gyda phobl ifanc yn arwydd nad oedd cyflawniad addysgol mewn cyd-destun ffurfiol bob amser yn bosibl i lawer o bobl ifanc dan y drefn sydd ohoni. Fodd bynnag, yr oedd angen **rhaglen weithredu unigol** neu gwricwlwm amgen ar gyfer rhai a oedd wedi cael eu gwahardd neu a oedd wedi ymddieithrio er mwyn eu dwyn yn nes at ddysgu ac addysg barhaus. Wrth lansio'r Papur Gwyrdd, dywedodd Peter Hain hefyd:

> 'Mae'r gwasanaeth ieuenctid a'r Sefydliadau Sector Gwirfoddol perthynol yn hollbwysig yn yr ymgyrch dros wlad sy'n dysgu. Maent yn gwneud cyfraniad sylweddol trwy helpu pobl ifanc naill ai i barhau â diddordeb mewn dysgu neu i ddychwelyd at ddysgu… Erbyn 2002 rydym am sicrhau proffil llawer amlycach i'r gwasanaeth ieuenctid a'i wneud yn llawer mwy cymwys i gynnal pobl ifanc trwy'r ganrif nesaf.'

Gweithiodd y chwe phrosiect partneriaeth cyntaf gyda'r adrannau Addysg/Cymuned ac Addysg /Gwasanaeth Ieuenctid, gan ymwneud ag un, dwy neu dair ysgol. Gweithiodd un prosiect gyda phlant y gofelir amdanynt dros sir gyfan. Yr oedd un arall yn bartneriaeth rhwng sefydliad gwirfoddol, awdurdod lleol ac ysgol. Yr oedd y sefydliad gwirfoddol hwn eisoes wedi dechrau helpu addysg a gwasanaethau cymdeithasol i daclo dieithrwch cymdeithasol.

Ers dechrau'r Rhaglen Bartneriaeth Gwaith Ieuenctid ac Ysgolion, mae adroddiad ar y cyd gan y Cyngor Ieuenctid Cenedlaethol a'r Adran Addysg a Chyflogaeth wedi ailddatgan y cyfraniad y gall gwaith ieuenctid ei wneud. Tynnodd yr adroddiad hwn sylw at swyddogaeth gwaith ieuenctid wrth **hybu cyflawniad pobl ifanc a hyrwyddo cymathu cymdeithasol** (Adran Addysg a Chyflogaeth 1999a).

Daeth yr adroddiad hwnnw yn sgil nifer o ddadansoddiadau a thrafodaethau ar bobl ifanc 'ar goll' sydd wedi cefnu ar ddysgu ffurfiol (Merton 1998; Pearce a Hillman 1998). **Mae pob un yn sôn am yr angen am fwy o gefnogaeth anffurfiol i fwy o bobl ifanc 'anfodlon' ac am raglenni mwy hyblyg i'w hailgymathu**. Atgyfnerthwyd dadleuon o'r fath yn fwy diweddar yng ngwaith corff ymchwil y llywodraeth DEMOS (Bentley a Gurumurthy 1999) ac yng ngwaith cyfredol Tîm Gweithredu'r Uned Dieithrwch Cymdeithasol ar bobl ifanc.

Yn wir, cynigiodd y Papur Gwyn ôl-16 y dylid sefydlu gwasanaeth cynnal newydd ar gyfer pobl ifanc 13-19 oed i **gynyddu** cyfran y bobl ifanc sy'n aros mewn addysg ar ôl yr oedran leiaf ar **gyfer gadael yr ysgol**. Mae'n her fawr, yn enwedig mewn perthynas â dynion ifanc nad yw llawer ohonynt yn gweld gwerth mewn dysgu ac sy'n awyddus i adael yr ysgol cyn gynted ag y bo modd (McGivney 1999).

Menter arbrofol iawn yw'r Rhaglen Bartneriaeth Gwaith Ieuenctid ac Ysgolion. Defnyddir methodolegau a gysylltir yn fwy aml â gwaith ieuenctid ac addysg anffurfiol i alluogi pobl ifanc i brofi llwyddiant ac i gymryd rhan **mewn cwricwlwm sy'n wahanol i fframwaith y Cwricwlwm Cenedlaethol**. Mae'r fenter yn ategu'r gwaith blaengar sy'n **cydnabod cyflawniadau** pobl ifanc a phrofiad o gymryd rhan yng ngweithgareddau'r gwasanaeth ieuenctid.

Ar sail rhaglenni diweddar a ddatblygwyd gan Gyngor Ieuenctid Cymru ac eraill megis Rhwydweithiau'r Coleg Agored, Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru, mae ASDAN yn dyfarnu Tystysgrifau Grym Rhifau a Grym Geiriau, dyfarniadau RSA CLAIT, unedau'r RhCA, cwrs sylfaen GNVQ mewn Gweithgynhyrchu, Peirianneg ac Adeiladu a llawer un arall. Mae llawer o bobl ifanc wedi **ennill cydnabyddiaeth am eu cyflawniadau** y tu allan **i'r strwythur addysg ffurfiol**. Mae'r holl gofnodion uchod yn darparu tystiolaeth a deunydd ffurfiannol, y gellir ei ddefnyddio ym **mhortffolio cofnod cyrhaeddiad y person ifanc**.

## Crynodeb

Mae'r Rhaglen Bartneriaeth Gwaith Ieuenctid ac Ysgolion wedi dechrau dangos sut y gall dulliau gweithredu gwaith ieuenctid mewn rhai ysgolion fod yn effeithiol wrth ddylanwadu ar bobl ifanc gan wella lefelau eu:

- cyrhaeddiad
- cyflawniad
- cymhelliad
- presenoldeb

trwy symud ymlaen at gyrraedd nod y llywodraeth o fod unwaith eto yn wlad sy'n dysgu.

# 3 Gwaith gan Gyngor Ieuenctid Cymru

Ym mis Mehefin 1998, ar ôl derbyn yr adnoddau i ddwyn y Rhaglen Bartneriaeth Gwaith Ieuenctid ac Ysgolion ymlaen, gwahoddodd Cyngor Ieuenctid Cymru **nifer o awdurdodau addysg lleol a sefydliadau ieuenctid gwirfoddol** i lunio a chyflwyno ceisiadau am gyllid. Disgwylid i geisiadau am brosiectau roi amlinelliad cryno o'r fethodoleg a gafodd ei ddefnyddio, manylion am y grwp targed, a'r **trefniadau partneriaeth** a gâi eu datblygu i hwyluso'r prosiect ynghyd â'r canlyniadau arfaethedig i'r rhai a gymerai ran.

Yr oedd amserlen y rhan hon o'r prosiect yn dynn. Derbyniwyd ceisiadau yn nechrau mis **Gorffennaf 1998**. Ystyriwyd y ceisiadau gan aseswyr annibynnol cyn gwneud penderfyniad terfynol. Hysbyswyd y prosiectau llwyddiannus a threfnwyd cyfarfod yn **niwedd mis Gorffennaf 1998**, i wneud trefniadau i ddwyn prosiectau ymlaen, cyn i'r ysgolion dorri am wyliau'r haf, gyda phrosiectau i gychwyn ym mis Medi.

## PROSIECTAU CYCHWYNNOL

| PROSIECT | AWDURDOD |
|---|---|
| • Ysgol Uwchradd Pen-y-Dre (Fresh Start) | Merthyr Tudful |
| • Rhaglen Dysgu Cefnogol 'Plant y gofelir amdanynt' | Caerdydd |
| • Partneriaeth Ysgol Gyfun Ferndale /Gwaith Ieuenctid | Rhondda Cynon Tâf |
| • Prosiect Partneriaeth Ysgolion a Gwaith Ieuenctid | Sir Gaerfyrddin |
| • Living Proof (Sefydliad gwirfoddol) | Casnewydd |
| • Partneriaeth Gwaith Ieuenctid ac Ysgolion | Sir Ddinbych |
| • Partneriaeth Gwaith Ieuenctid ac Ysgolion Meirionnydd | Gwynedd |
| • Partneriaeth Gwaith Ieuenctid ac Ysgolion (Prosiect Mesen) | Powys |

*Atodiad A. Amcanion, Nodau a Thargedau cyflwynwyd gan y prosiectau uchod yn eu ceisiadau am gyllid*

# 4 Strwythur a rheolaeth

Yr oedd gan rai o ysgolion fwy o reolaeth dros weithgareddau'r prosiectau nag eraill, yn uniongyrchol (trwy osod ffiniau tasg y prosiect) ac yn anuniongyrchol (trwy reoli mynediad i'r ysgol ac i ddisgyblion a dargedwyd).

**Cododd hyn gwestiynau ehangach am agenda waelodol y rhaglen gyfan:**

a oedd a wnelo â sut y gallai gwaith ieuenctid gynnal agenda ffurfiol yr ysgol?

a oedd a wnelo â sut y gallai ysgolion gymathu agenda gwaith ieuenctid yn eu hamcanion a'i blaenoriaethau?

a oedd a wnelo â sut y gallai ysgolion a gwaith ieuenctid gydweithio i ddatblygu gwell systemau cynnal ar gyfer pobl ifanc ar ymylon dysgu?

Nid yw'r cwestiynau hyn yn berthnasol yma, fodd bynnag. Yr hyn sy'n berthnasol yw **a oedd y berthynas rhwng gwaith ieuenctid ac ysgolion yn bartneriaeth neu ynteu'n ormes** y naill ar y llall.

Er gwaethaf yr awgrymiadau y dylai ysgolion weithredu wrth graidd eu cymunedau eu hunain, maent yn aml yn ynysig o fewn y cymunedau hynny (Ball 1998) neu'n troi'n 'ganolfannau dysgu cymunedol' (Bentley 1999).

Mae'r berthynas rhyngddynt a phleidwyr 'dysgu anffurfiol', neu weithwyr ieuenctid, yn debygol o fod braidd yn anesmwyth - er gwaethaf yr holl eiriau brwd.

Dywedodd gweithiwr prosiect yng Ngwynedd, '**mae'r hyn sy'n ymddangos yn ddull strwythuredig iawn o safbwynt gwaith ieuenctid yn dal i edrych braidd yn anstrwythuredig o safbwynt ysgol**'.

Mynegwyd rhwystredigaeth o hyd gan nifer o weithwyr prosiect am y cyfyngiadau (anfwriadol gan amlaf, ond bwriadol weithiau) a osodwyd gan ysgolion. Ystyriwyd gweithgareddau yn yr ysgol, gan **rai athrawon o leiaf fel 'opsiwn hawdd' ar y gorau a rhywbeth 'tanseiliol' ar y gwaethaf**.

Soniodd y weithwraig prosiect yng Ngogledd Sir Ddinbych 'nad oedd fawr o groeso' i'w methodoleg gwaith ieuenctid ar y cychwyn, ond i athrawon gael eu hargyhoeddi yn y diwedd gan ei hymroddiad a chan frwdfrydedd amlwg y disgyblion a gymerodd ran. Ni chafodd rhai gweithwyr ar brosiectau gyfle i ddisgleirio, fodd bynnag.

Nid yw gweithwyr ieuenctid yn gyfarwydd â gweithio mewn cyd-destunau sefydliadol ffurfiol megis ysgolion (a hefyd ysbytai, canolfannau cadw a chartrefi plant). Dysgodd y prosiectau'n fuan fod rhaid iddynt **ymaddasu i naws, defodau ac arferion y gwahanol ysgolion**, am y byddai hyn yn cael effaith ar y math o gysylltiad a fyddai rhyngddynt o ran y disgyblion a gymerai ran yn y prosiectau.

Er i'r prosiectau a'r ysgolion negodi ynghylch rhaglenni, mewn amryw byd o ffyrdd, nid yw gwaith ieuenctid yn golygu bwrw ymlaen gyda rhaglen o'r fath, doed a ddelo.

Soniodd llawer o'r prosiectau am yr angen i **fod yn hyblyg a pharod i negodi a chyfaddawdu** er mwyn ennill ymroddiad. Yr oedd hyn, meddent, yn fodd i arddel y bobl ifanc dan sylw, pan oedd yr ysgolion wedi methu â gwneud hynny. Fodd bynnag, yr oedd yr arddeliad hwnnw'n debygol o fod yn wahanol iawn ac o bosibl yn annerbyniol gan (rai) ysgolion.

> Y tyndra hanfodol hwn mewn prosiectau partneriaeth gwaith ieuenctid ac ysgolion sy'n ategu'r angen am gytundebau clir ynghylch mynediad a chyfeiriad y rhaglen cyn dechrau prosiect, heb ildio'r dull gwaith ieuenctid.

Drwy'r rhan fwyaf o flwyddyn gyntaf y Rhaglen Bartneriaeth Gwaith Ieuenctid ac Ysgolion, rhaid oedd ymdrin â materion o'r fath yn ôl y galw, heb i hynny fodloni'r naill ochr na'r llall.

## Dulliau

Yr oedd amrywiaeth ymhlith y prosiectau o ran ymgysylltu **â'r bobl ifanc a dargedwyd**. Yr oedd gweithwyr y prosiectau at ei gilydd yn anfodlon i bobl ifanc gael eu 'gyrru' atynt. Yr oedd yn well ganddynt gysylltu â hwy y tu allan i gyd-destun yr ysgol. Felly'r gwaith a wnaed gan Living Proof yng Nghasnewydd yng nghartrefi disgyblion, a dull cymunedol y prosiect yn Rhondda Cynon Tâf.

Unig ddewis prosiect Caerdydd oedd ymweld ag unedau preswyl. Yn yr un modd, cyfeiriwyd prosiect Sir Ddinbych yn aml at bobl ifanc yr oedd yr ysgol yn gobeithio y byddai'r prosiect yn gallu eu cefnogi.

Yng Ngwynedd a Phowys, cyfeiriwyd pobl ifanc benodol at y prosiect, yn groes i'w hewyllys i raddau.

**Yr oedd angen cyfathrebu cadarn ond sensitif i sefydlu natur gweithwyr y prosiectau fel gweithwyr ieuenctid ac nid fel math o atodiad i staff yr ysgolion**.

Weithiau yr oedd angen **ailwerthuso bwriadau'r gwahanol brosiectau** fel y'u caed yn y cynigiad cychwynnol fel yr aeth y gweithgareddau yn eu blaen.

Daw'r enghreifftiau gorau o hyn o Ferthyr lle'r oedd yn amlwg nad oedd 'dull yr ystafell ddosbarth' a fabwysiadwyd ar ddechrau'r rhaglen FreshStart 3 yn mynd i lwyddo, ac o Living Proof, nad oedd wedi ystyried gweithio gyda disgyblion Blwyddyn 9 i ddechrau ond a newidiodd y penderfyniad hwn maes o law.

# Canlyniadau i ysgolion

**• Rheolaeth y dosbarth ac ymddygiad disgyblion**

Mewn un prosiect, yr oedd perthynas broffesiynol dda wedi datblygu rhwng staff yr ysgol, a staff bugeiliol yn enwedig, gweithwyr prosiect a gweithwyr lles addysg. Un canlyniad boddhaol mewn dau brosiect oedd bod staff yn gallu rhoi mwy o sylw i ddisgyblion ymylol eraill am fod disgyblion anodd yn brysur mewn man arall, neu'n derbyn cefnogaeth ychwanegol yn yr ystafell ddosbarth.

Soniodd un athrawes am ddisgybl a fynnai sylw manwl am chwarter awr ar gyfartaledd ym mhob gwers 50 munud. Gallai bellach rannu'r chwarter awr honno rhwng y disgyblion eraill.

Gwelwyd fod ymddygiad rhai dosbarthiadau wedi gwella'n ddirfawr a bod hynny wedi cyfrannu at wella safonau gwaith y disgyblion. Gwelwyd yr un effaith ar broblemau ym mhobman.

**• Newidiadau mewn ysgolion**

Mewn rhai achosion, mae ysgolion wedi ymrwymo i newid a datblygu i fod yn fwy parod i ymateb i anghenion pobl ifanc sy'n cael anawsterau.

Mewn un achos, sefydlwyd strategaeth ysgol-gyfan i ymdrin ag anfodlonrwydd, ond mewn eraill erys llawer i'w wneud eto i sicrhau bod diwylliant a naws ysgolion yn rhoi digon o flaenoriaeth i brosiectau sydd wedi dangos yr hyn y mae'n rhaid ei wneud i newid agweddau.

Mewn achos arall, er gwaethaf rhai anawsterau, ymgymerodd grwpiau nad oeddynt wedi'u targedu â gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol (yn aml iawn ochr yn ochr ag unigolion a oedd wedi pontio'r bwlch rhwng y gwasanaeth ieuenctid a'r ysgol, gan arwain at fwy o gwrp targed yn ymwneud â gwaith ieuenctid). Mynegodd y pennaeth y farn bod angen i'r ysgol ddod yn wir 'ysgol gymunedol', a bod y prosiect yn gwella'r tebygolrwydd y bydd hyn yn digwydd.

Yn achos y prosiect plant y gofelir amdanynt, roedd yn amlwg nad oedd rhai ysgolion ar y pryd hyd yn oed yn fodlon trafod y posibilrwydd o dderbyn y bobl ifanc hyn, er bod eraill yn fwy croesawgar. Ymgymerodd arweinydd y prosiect ag ymweld â phob ysgol uwchradd yn yr awdurdod, gan ddechrau yn nhymor yr hydref, er mwyn siarad â phob pennaeth am raglenni ailintegreiddio.

**Fodd bynnag, mae amharodrwydd rhai ysgolion uwchradd i ystyried ailintegreiddio yn rhwystr i lwyddiant mewn rhai achosion.**

# Canlyniadau a darganfyddiadau eraill

**• Cyfraniad rhieni**

Mewn tri phrosiect, gwnaed ymdrech neilltuol i ddenu rhieni pobl ifanc anfodlon. Er bod yr ymdrechion hyn wedi amrywio o ran llwyddiant, **mae enghreifftiau da o gefnogaeth ac addysg i rieni, cydweithrediad a gwell dealltwriaeth o'r materion pwysig sy'n wynebu pobl ifanc** a gwell cefnogaeth ymarferol i'w plant.

Mewn un prosiect, mae llawer o'r gwaith wedi canolbwyntio ar ddarparu gwyliau preswyl i'r rhan fwyaf o'r disgyblion mewn un flwyddyn, gyda phob dosbarth yn ei dro'n mynd i hostel ieuenctid naill ai yn Ninbych y Pysgod neu ar Fannau Brycheiniog am ychydig ddyddiau yn ystod yr wythnos.

Nodwedd gref yn hyn o beth oedd yr ymweliadau croeso gan weithwyr prosiect, **fesul dau** a dwy, â chartrefi disgyblion er mwyn esbonio natur ac amcanion y prosiect i flwyddyn academaidd pob disgybl. Cafodd y gweithwyr prosiect gyfle i esbonio yn ogystal eu bod yn gallu darparu cefnogaeth i rieni os oedd hynny'n dderbyniol.

Yn yr achos arbennig hwn, mae'r prosiect dan arweiniad sefydliad gwirfoddol. Llwyddodd yn hyn o beth, efallai, am nad yw'n cael ei ystyried fel rhan o unrhyw asiantaeth awdurdodol.

Mewn rhai achosion, fodd bynnag, er gwaethaf rhaglen sylweddol o ymweliadau â chartrefi, ychydig o gefnogaeth sydd gan rieni i'r prosiect, os dim. Mae problemau wedi bod wrth geisio cysylltu â rhai rhieni ac mae angen strategaeth gadarnhaol i gysylltu â rhieni sydd efallai heb ddiddordeb. **Mae nifer sylweddol o'r rhieni hyn yn anwybyddu absenoldeb y bobl ifanc** ac yn elyniaethus neu'n anfodlon eu hunain. Mae gan lawer ohonynt flaenoriaethau eraill, gan fynnu bod eu plant yn ennill arian, yn gofalu amdanynt neu am blant eraill neu'n gwneud gwaith yn y cartref.

## • Gwaith rhwng asiantaethau ar ran pobl ifanc unigol

Un canlyniad cadarnhaol iawn yn y prosiectau yw ymwneud agosach yr asiantaethau â chyfarfodydd adolygu disgyblion. Enghreifftiau o hyn yw Swyddogion Lles Addysg, y gwasanaeth ieuenctid, gweithwyr cymdeithasol, ysgolion, yr heddlu, mudiadau gwirfoddol, y gwasanaeth gyrfaoedd, asiantaethau hybu iechyd ayb. Mewn un achos, adolygwyd pawb a gymerodd ran yn y prosiect. Gyda sylw manwl i rai a oedd yn ymddwyn yn neilltuol o broblematig.

Amrywiai'r atebion yn ôl anghenion unigolion, gyda phwyslais cryf ar geisio datrys problemau pob un yn y ffordd orau. Cadarnhaodd y prifathro a swyddog yr AALl wedi hynny nad oedd cydlyniad o'r fath rhwng gwasanaethau wedi bod nes cychwyn y prosiect hwn.

## • Cefnogaeth i bobl ifanc

Mae'r holl bobl ifanc yn derbyn cefnogaeth dda gan staff y prosiect a phobl eraill sy'n gysylltiedig â'r prosiectau. Mae'r gefnogaeth hon ar gael yn y dosbarth a'r tu allan (e.e. clwb gwaith cartref). Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth gyda sgiliau allweddol, gofal bugeiliol a help i rieni. Mewn un achos, mae staff y prosiect wedi helpu yn y clwb gwaith cartref gan gefnogi astudio gartref i raddau hefyd. Mewn mannau eraill, cafwyd cefnogaeth fwy ymarferol ond yr un mor sylweddol, er enghraifft trafnidiaeth o'r cartref i weithgareddau allanol.

## • Ymyrryd yn gynt

Mae un prosiect wedi gweld yr angen i ymyrryd yn gynt mewn perthynas ag anfodlonrwydd ac mae wrthi'n negodi **mynediad i ysgolion** cynradd fel bod modd gweithredu mentrau cyn i agweddau a phatrymau presenoldeb pobl ifanc ymsefydlu.

# 5 Staffio a chyflwyno'r rhaglen

Bu amrywiaeth mawr o ran staffio wrth gyflwyno'r rhaglenni a ddatblygwyd gan y prosiectau. Roedd rhai prosiectau'n ddibynnol iawn ar gyfraniad gan fentrau eraill. Yn hyn o beth, gweithredai gweithwyr y prosiectau fel 'broceriaid' (gweler Bentley a Gurumurthy 1999) rhwng pobl ifanc a chyfleoedd lleol i gymryd rhan mewn datblygiad addysgol.

- Elwodd y prosiect yng Nghaerdydd ar y cysylltiadau rhyngddo a menter arall, sef y prosiect Dysgu Awyr Agored.
- Cynigiwyd cyfle i o leiaf un person ifanc gan y prosiect Community Autos Rhyl (CARS) yn Sir Ddinbych.
- Elwodd y prosiect ym Mhowys yn ddirfawr ar gyfraniad yr Uned Hybu Iechyd.
- Gweithiodd y prosiect yn Rhondda Cynon Tâf ar y cyd â Fairbridge De Cymru yn y cyrsiau datblygiad personol a gynigiwyd gan y sefydliad hwnnw.

Yr oedd peth o'r ddarpariaeth yn costio arian, a rhannau eraill heb wneud, **ond yr oedd bodolaeth y ddarpariaeth yn allweddol i'r posibilrwydd o greu rhaglen eang a phersonol** i'r bobl ifanc a gymerodd ran.

Heb gysylltiadau o'r fath, bu'n raid i brosiectau ddibynnu ar eu hadnoddau eu hunain. Trefnodd y prosiect yn Rhondda Cynon Tâf sesiynau wedi eu canoli ar hyfforddiant pêl-droed. Yng Ngwynedd, cynhaliodd y gweithiwr prosiect gystadleuaeth sglefr-rolio. Trefnodd y gweithiwr yn Sir Gaerfyrddin a Living Proof brofiadau preswyl. Defnyddiodd pobl eraill ddarpariaeth gyfredol yn hyn o beth, ac roedd eu llwyddiant yn gymysg!

Yr oedd darpariaeth uniongyrchol yn hanfodol i bobl ifanc dan 14 oed a oedd yn methu defnyddio darpariaeth ehangach oherwydd eu hoed. Ond ni chadwodd hyn y gweithwyr prosiect rhag ceisio cysylltiadau ag asiantaethau eraill ac, yn wir â phobl eraill yn y cymunedau lleol.

Gwaith y gweithiwr prosiect ym Mhowys oedd hwyluso lleoliadau profiad gwaith. Yn Sir Ddinbych, fodd bynnag, rhoddwyd y swydd hon i'r ymgynghorydd hyfforddiant a chyflogaeth, a secondiwyd o'r gwasanaeth gyrfaoedd. Caniataodd hyn i'r ddau weithiwr ganolbwyntio ar weithio'n agosach â phobl ifanc yn unigol ac mewn grwpiau.

Yn wir, chwaraeodd y **gwasanaeth gyrfaoedd ran bwysig mewn rhai prosiectau**, gan ddarparu ymyriad uniongyrchol yn y rhaglen ym Mhowys, a darparu cyfleoedd amgen (trwy Careers Plus) yng Ngwynedd.

O gofio'r gwahanol fathau o bobl ifanc a gymerodd ran yn y prosiectau hyn, nid yw'n bosibl argymell rhaglen barod i wrthsefyll 'anfodlonrwydd'. Fodd bynnag, mae'r gwahanol gyfuniadau o weithgareddau a chyfleoedd a gynigiwyd trwy'r prosiectau yn awgrymu y dylai pob prosiect o'r fath ystyried pecyn sy'n cynnwys:

- cyngor a chefnogaeth unigol;
- rhaglenni datblygiad personol;
- gweithgareddau gyda phwyslais galwedigaethol (profiad gwaith, gyrfaoedd);
- gweithgareddau cymunedol;
- cynnydd academaidd (hyd yn oed datblygu sgiliau sylfaenol).

Ni allai pob prosiect gynnig y fath amrywiaeth o gyfleodd, **ond efallai y dylai prosiectau yn y dyfodol orfod esbonio pam maent yn hepgor un neu ragor o'r elfennau hyn, os nad yw'n rhan o'r rhaglen**.

# 6 Effaith ac ystyriaethau

Hawliwyd pob math o gyflawniad i'r wyth prosiect cyntaf yma, eto ychydig oedd eu dylanwad ar brif her y Rhaglen Bartneriaeth Gwaith Ieuenctid ac Ysgolion:

- **Gwella lefelau tangyflawni ymhlith disgyblion 'ar yr ymylon'.**

Gall fod rhagor o dystiolaeth am hyn yn nes ymlaen, pan fydd rhagor o brosiectau wedi bod ar waith, ond mae **tystysgrifio achrededig ffurfiol wedi bod yn beth prin**, hyd yn oed os yw hynny a roddwyd i unigolion ar y prosiectau yn amlwg wedi creu rhyw ymdeimlad o lwyddiant a hyder.

Yn wir, er bod cwestiynau pwysig i'w gofyn o hyd am werth helaethach llawer o'r tystysgrifau sydd bellach ar gael, ni ellir gorbwysleisio eu gwerth wrth gyfleu i bobl ifanc sydd wedi arfer methu eu bod **yn gallu cyflawni rhywbeth**.  Mae'n bosibl mai dyma'r **ymdeimlad hwnnw** o gyflawni sy'n adnewyddu, ar raddfa fechan, rhaid cyfaddef, **eu hymrwymiad i ddysgu** ac a adlewyrchir mewn gwell presenoldeb ac ymddygiad yn yr ysgol.

Efallai fod y prosiectau wedi dioddef oherwydd disgwyliadau afresymol ynghylch yr hyn y gallent ei gyflawni, a bod dyheadau afreal wedi ychwanegu at hyn.

- Mae'n bosibl y bydd potensial pobl ifanc a oedd wedi ailafael ym mywyd yr ysgol yn dal yn gyfyngedig, ond gall eu hagwedd fod yn fwy derbyniol.
- Gall hyn, ynddo'i hun, fod oherwydd y gweithgareddau datblygiad personol a chymdeithasol y maent wedi cymryd rhan ynddynt.

Ni ddylid anghofio'r effaith helaethach ar y ddau eithaf chwaith.  Mae'n bosibl bod y prosiectau hyn wedi arwain at deuluoedd, cymunedau ac ysgolion mwy cytûn, er ei bod yn anodd cadarnhau achos ac effaith.  Soniodd teuluoedd rhai o'r disgyblion yn y prosiect ym Mhowys am newid yn agwedd eu plant.

**Gall hyn olygu bod cymunedau'n dioddef llai dan ormes rhai o'r unigolion hyn**. Yn sicr, soniodd ysgolion fod ffocws y prosiect ar y disgyblion mwyaf 'anodd' wedi creu mwy o **ymdeimlad o undod yn yr ysgol**, un ai a wnaed gwaith gyda disgyblion 'wedi eu targedu' oddi allan i'r ysgol.

## • Cynnydd

Bu llawer o sôn am **'ddilyn trywydd' unigolion**, sy'n gyson â meddylfryd cyfredol y llywodraeth am bolisi (Adran Addysg a Chyflogaeth 1999b).  Fodd bynnag, gyda rhai eithriadau, ychydig o dystiolaeth sydd am lefel, hyd a dwyster ymwneud pobl ifanc unigol, a beth oedd canlyniadau hyn.

Derbynnir bod mannau cychwyn a phwysau ehangach ar unigolion yn drysu materion cynnydd. Mae'n gwestiwn hefyd a ellir bod yn hyderus wrth **briodoli cynnydd llwyddiannus (os gellir ei adnabod) i ymyriad y prosiect dan sylw**.

## • Adnoddau'r prosiectau

Roedd adnoddau pob prosiect yn wahanol, gyda rhai'n derbyn peth cyllid dan y Rhaglen Bartneriaeth Gwaith Ieuenctid ac Ysgolion yn sicrhau adnoddau ychwanegol mewn arian neu nwyddau o ffynonellau eraill. Amhosibl, felly, yw amcangyfrif union gostau'r prosiectau. Dim ond y prosiect ym Mhowys a gynigiodd awgrym o gost debygol y pen o ryw £3,000 ar gyfer ei raglen.

Mae nifer o faterion i'w hystyried, felly.

- Yn gyntaf, cwestiwn ffynhonnell cyllid prosiectau o'r fath. Ym Mhowys, daliodd y disgyblion ar gofrestr yr ysgol ac ni throsglwyddwyd eu cyllid i'r prosiect newydd.

> Mae lle cryf i gredu y dylai pobl ifanc, ni waeth pa mor fregus eu cysylltiad â'u hysgolion, allu cael mynediad i'w hawl addysgol i ddibenion addysgol.

- Yn ail, o ran agenda 'gwneud yn iawn', gellid dadlau y dylid clustnodi adnoddau addysgol ychwanegol ar gyfer disgyblion o'r fath.

- Yn drydydd, fodd bynnag, fel y dywedwyd uchod, nid yw pob canlyniad cadarnhaol o reidrwydd yn un addysgol a hyd yn oed os yw methiant y canlyniadau addysgol yn amlwg, gall canlyniadau eraill gael effaith economaidd ar adnoddau ar gyfer prosiectau o'r fath.

Mae a wnelo'r rhain â chanlyniadau byr-dymor (iechyd seicogymdeithasol, ymatal rhag troseddu a defnyddio cyffuriau) a hir-dymor (digartrefedd, trosedd, afiechyd, anhwylderau seicogymdeithasol a byw ar fudd-daliadau).

Mae'n weddol hawdd nodi'r ffactorau o ran risg a gwarchod rhag risg yn hyn o beth, ond anos o lawer yw troi'r rhain yn rhaglenni perswadiol ac effeithiol i atal y problemau hyn

**Un ffactor hollbwysig yw cefnu ar addysg a methu** â mynd ymlaen yn llwyddiannus ar ôl cyrraedd16 oed.

> 'Mae dadl ddiamheuol dros ddyrannu digon o gyllid, o ffynonellau addysgol a ffynonellau eraill, er mwyn codi clwydi cryfach ar ben y clogwyn yn hytrach na darparu ambiwlans wrth droed y clogwyn hwnnw.'
>
> Nick Hardwick, pan oedd yn Brif Weithredwr Centrepoint.

# 7 Datblygiadau mewn ymarfer gwaith ieuenctid

**• A yw'n 'waith ieuenctid'?**

Mae'r Rhaglen Bartneriaeth Gwaith Ieuenctid ac Ysgolion wedi cael cryn sylw gan rai ym maes gwaith ieuenctid.

> Mae rhai wedi mynegi pryderon, gan ofyn a ddylid glymu gwaith ieuenctid mor dynn wrth agenda polisi penodol cynhwysiant mewn ysgolion.

> Gofynnwyd hefyd, ac yn ddigon plaen, a ddylai gweithwyr ieuenctid gael eu hariannu gan y TECs i ddarparu agenda hyfforddi neu a ddylid ariannu rhai yn yr Awdurdodau Iechyd i weithio ym maes iechyd rhyw a chyffuriau.

> Mae'r rhain i gyd, wrth gwrs, yn bynciau dilys ar gyfer rhaglenni ac ymyriadau gwaith ieuenctid; y pryder yw pryd y dylent fod yn flaenoriaeth bendant.

> Mae eraill wedi croesawu'r rhaglen am ei bod yn arwydd o ffydd gan wleidyddion yn y cyfraniad y gall gwaith ieuenctid ei wneud i fywydau a rhagolygon pobl ifanc!

Mae amheuon o hyd, a byddai'r rhan fwyaf yn cytuno **nad yw naws ac ymarfer y prosiectau yn waith ieuenctid fel y'i deallwyd yn draddodiadol**.

Mae pleidwyr y rhaglen yn dal ei **bod yn dal yn waith ieuenctid**, ond yn waith ieuenctid anghyfarwydd ei olwg. Mae beirniaid wedi dadlau, am amryw byd o resymau, bod elfennau o 'waith ieuenctid' yn y prosiectau, ond nad yw'n waith ieuenctid ond yn rhywbeth gwahanol.

Mae modd dweud bod gwaith ieuenctid wedi cael ei ynysu'n rhy hir rhag y polisïau newydd sy'n effeithio ar bobl ifanc a rhag cyflwr cymdeithasol newydd pobl ifanc ar fin mynd yn oedolion.

Yr anhawster sylfaenol i rai pobl yw nad oes cysyniad cyffredinol o beth yw gwaith ieuenctid 'traddodiadol' y gellir barnu'r prosiectau wrtho.

Mae eraill wedi synio am waith ieuenctid fel rhywbeth a ddylai gael ei ddarparu gan weithwyr ieuenctid a chymuned cymwysedig, gan fynegi pryder mai dim ond staff priodol, cymwys a chymwysedig a ddylai ddarparu gwaith ieuenctid. Mae'n bosibl na fydd rhai mewn meysydd gwaith ieuenctid eraill yn cyd-fynd â hynny.

Dadleuwyd ar ben hynny mai'r peth pwysig yw nid yn gymaint pwy sy'n gyfrifol am wneud y gwaith **ond sut mae'n cael ei wneud**. Hynny yw, yr apêl at fethodoleg gwaith ieuenctid yw'r pwnc dan sylw, ac nid cyd-destun y gwaith.

Mae'r Rhaglen Bartneriaeth Gwaith Ieuenctid ac Ysgolion yn tynnu sylw at yr holl faterion hyn. Er bod y rhan fwyaf o brosiectau wedi cyfeirio, yn ymhlyg ond nad yn agored, **at egwyddorion cwricwlaidd gwaith ieuenctid**, mae'r rhain wedi dal yn annelwig ac yn aneglur.

Mae'n amlwg bod yr holl bobl ifanc a oedd yn gysylltiedig â'r prosiectau yn cymryd rhan mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, felly mae modd amddiffyn yr egwyddor gyfranogol, ond yn sicr, yn achos rhai o'r prosiectau, **nid oedd lefel yr ymgynghori, negodi a chynllunio ar y cyd â phobl ifanc bob amser yn amlwg iawn**.

Mewn geiriau eraill, nid oedd cyfranogi'n digwydd yn ystyr lawnaf y gair hwnnw. Ac am yr egwyddor o ymwneud â gwaith ieuenctid yn wirfoddol, egwyddor sy'n rhan annatod o brosesau'r cyfranogwyr, **nid oedd dewis mewn rhai o'r prosiectau**.

Mae llawer o'r agenda polisi cyfredol i bobl ifanc (dysgu, ymatal rhag troseddu, ymgadw rhag camddefnyddio cyffuriau) yn hanfodol os yw pobl ifanc i gadw cysylltiad â'r brif ffrwd. Ni all gwaith ieuenctid osgoi hynny.

> Mae gan waith ieuenctid, felly, gyfrifoldeb i gydweithredu â mathau eraill o ymyriad proffesiynol ym mywydau pobl ifanc..

Mae cydweithrediad o'r fath yn gofyn rhoi unrhyw syniadau damcaniaethol am beth sydd 'orau' o'r neilltu. Mae'n mynnu bod pob un yn parchu tiriogaeth a blaenoriaethau ei gilydd tra'n ceisio chwilio am dir cyffredin trwy bartneriaethau lle mae modd datblygu ymarfer.

**Dyma'r her i'r Rhaglen Bartneriaeth Gwaith Ieuenctid ac Ysgolion.**

Dylai gwaith ieuenctid ac addysg ffurfiol rannu ymrwymiad i alluogi pobl ifanc i barhau i ddysgu.

Mae cydweithio fel hyn yn gofyn cael ffinia llai pendant rhwng asiantaethau, fel bod y **naill yn cael archwilio cyfraniad y llall**.

Mewn rhai prosiectau, daeth yr ysgolion (yn araf ond yn sicr) i ddeall y gwahanol feddylfryd a methodoleg sy'n ategu ymarfer gwaith ieuenctid. Fodd bynnag, bu'n rhaid i'r rhan fwyaf gydnabod ei fod yn gweithio yng nghyd-destun yr ysgol neu, ar unystyr, trwy 'garedigrwydd' yr ysgol.

Tueddai ysgolion eraill i synio am y prosiectau yn unig fel **estyniad o agenda'r ysgol, ac yn iswasanaethgar i waith yr ysgol**.

Mae cwestiynau mawr i'w gofyn yma. A ellir ystyried y gwaith hwnnw (neu ran ohono) fel gwaith ieuenctid? Mater oedd yn hytrach o ddal ar yr adnoddau ychwanegol er mwyn delio, mewn ffyrdd mwy hyblyg ac amgen, â phobl ifanc a oedd yn creu trafferthion i'r ysgol.

**Mae gwaith ieuenctid, ar y llaw arall, yn rhoi blaenoriaeth amlwg i anghenion yr unigolyn. Byddai agenda addysg ffurfiol yn iswasanaethgar i anghenion ehangach.**

Tynnodd gwaith monitro a gwerthuso sylw at y ffaith bod prosiectau sydd wedi defnyddio methodoleg ac ymarfer gwaith ieuenctid, wedi gwneud cyfraniad o bwys at waith gyda phobl ifanc 'ar yr ymylon'. **Mae cyfleoedd i ddatblygu a gwerthuso dulliau gwaith ieuenctid** o weithio gyda phobl ifanc anfodlon, yn haeddu sylw llawnach a'r gred yw eu bod yn gweithio'n arbennig o dda lle bo partneriaeth agos â'r ysgolion. **Mae'r dulliau hyn wedi gweithio'n dda lle mae gweithwyr ieuenctid medrus wedi**:

- llwyddo i ddatblygu **ffyrdd blaengar ac effeithiol** o weithio gyda phobl ifanc;
- dangos **ymyriad effeithiol** mewn sefyllfaoedd a allai fod yn anodd;
- dangos y buddiannau lle bydd **oedolion heb fod yn awdurdodol** yn gweithio gyda phobl ifanc anfodlon a rhinweddau'r dull hwn mewn perthynas â'u cymhelliad a'u hunan-werth;
- nodi **amrediad o weithgareddau** amgen lle gall pobl ifanc brofi **llwyddiant a chyflawniad**;
- **dod â phersbectif newydd** i waith gyda phobl ifanc anfodlon yng nghyd-destun yr ysgol;
- **gweithio'n llwyddiannus ar y cyd** ag asiantaethau eraill; ac wedi
- **derbyn pob cefnogaeth** gan staff yr ysgol, gweithwyr proffesiynol eraill a gwasanaethau ieuenctid.

# 8 Disgwyliadau, amserlenni a chanlyniadau

Roedd amryw byd o ddisgwyliadau gan y Rhaglen Bartneriaeth Gwaith Ieuenctid ac Ysgolion. O safbwynt gwleidyddol, roedd gobeithion y gallai ymyriad gan waith ieuenctid wneud cryn wahaniaeth i lefelau gwaharddiad o'r ysgol a thangyflawni.

O safbwynt proffesiynol, cydnabu rheolwyr a gweithwyr y prosiectau a'r ysgolion fod disgwyliadau o'r fath yn debyg o fod yn or-uchelgeisiol (er bod sôn am ddisgwyliadau felly yn y cynigion yn aml, gweler Atodiad A). **Roedd mwy o bwyslais yn y nodau ar gadw pobl ifanc anfodlon yn yr ysgol**, trwy ymdrechu i gynnal gwell presenoldeb ac ymddygiad, ac efallai trwy gynnig cyfleoedd adeiladol yn yr ysgol neu'r tu allan.

Roedd pwyslais y bobl ifanc ar yr agwedd olaf: roedd y prosiectau'n cynnig 'rhywbeth i'w' wneud, er i lawer o bobl ifanc gyfaddef bod eu hymwneud â **phrosiectau wedi rhoi mwy o hyder iddynt**, eu gwneud yn falch o'u cyraeddiadau, a'u helpu yn yr ysgol o ran agwedd a phresenoldeb.

Nid yn unig yr elfennau mwy strwythuredig a ffurfiol a oedd o fudd i'r bobl ifanc (yn wir, weithiau dyma'r agweddau nad oedd gan y bobl ifanc fawr o feddwl ohonynt), ond hefyd yr ymyriadau mwy anffurfiol - weithiau 'sgwrs fach'. Yn wir y broses hon yw craidd gwaith ieuenctid (Jeffs a Smith 1996) ond, o safbwynt y disgyblion, roedd yn bwysig yn yr ystyr o'u galluogi i drafod pynciau, ac i 'gael popeth allan o'ch pen, yng ngeiriau un wraig ifanc.

Canlyniad dull gwaith ieuenctid gyda'r ysgol, yn ei dro, oedd bod pobl ifanc a oedd yn rheolaidd yn 'anodd', yn ymddwyn mewn ffordd dawelach a mwy derbyniol.

Bu disgwyliadau o ran amser hefyd. Mae mater dwysedd a hyd ymyriadau, ynghyd â chwestiynau mwy anodd ynghylch parodrwydd pobl ifanc i ymateb i'r ymyriadau hynny.

Yn y darlun cymhleth hwn, nid oes ar bobl ifanc broblemus angen mwy o gymorth o reidrwydd.

Ffolineb fyddai disgwyl pethau mor ddyrchafedig gan brosiectau byr-dymor (**sylw a wnaed yn rhy gyffredin, ond y gwir yw bod gormod o waith papur heb fawr dystiolaeth ar sail ymarfer gwirioneddol**). Peth peryglus hefyd yw dadlau y byddai strategaethau mwy hir-dymor yn gwarantu gwell canlyniadau. Byddai mwy o gyfle, wrth reswm - ond amhosibl fyddai gwarantu hynny.

Gan nad oes modd mesur llwyddiant, mae'n bosibl amddiffyn popeth, neu ymosod arno.

Y cwestiwn yw faint o'r bobl ifanc yn y prosiectau hyn y gellid disgwyl gweld cynnydd ynddynt - ac i ba raddau y dylid disgwyl iddynt wneud cynnydd o ran agwedd, presenoldeb a chyflawniad? Gellid cymharu hyn â phrosiectau cyfiawnder ieuenctid, nad ydynt bob amser yn sicrhau y bydd pobl ifanc yn ymatal yn gyfan gwbl rhag troseddu ond a all sicrhau lleihad pwysig o ran troseddu, yn nhermau difrifoldeb y troseddau eu hunain a'u hamlder.

**Cwestiwn arall i fentrau gwaith ieuenctid mewn ysgolion yw beth yw ystyr 'cwricwlwm amgen'?**

Mae cryn sôn am 'gwricwlwm amgen', ac o ganlyniad, nid yw ei ystyr yn gwbl eglur bellach. Soniodd adroddiad Pwyllgor Dethol yr Adran Addysg a Chyflogaeth (1998) am werth datblygu 'cynnig cwricwlaidd amgen' a allai gynnwys mwy o waith galwedigaethol (efallai mewn coleg addysg bellach), profiad gwaith a pheth datblygiad personol neu weithgaredd cymunedol.

Ar wahân i'r ddadl elfennol - ond digon pwysig serch hynny - **ynghylch 'lleihau niwed'**, ar y sail bod gweithgarwch pwrpasol o leiaf yn cadw pobl ifanc rhag gweithredu'n niweidiol iddynt eu hunain neu i'r gymuned, mae'n amhosibl asesu effaith ymyriad o'r fath yn y tymor hir.

Ar y Rhaglen Bartneriaeth Gwaith Ieuenctid ac Ysgolion, **mae'n dal yn amhosibl dweud**, er gwaethaf straeon o du ysgolion, pobl ifanc a'r prosiectau eu hunain, fod y prosiectau wedi bod o fudd, yn ôl ystod o feini prawf.

Ymhlith y 'cwricwla amgen' a ddarparwyd gan y prosiectau, yn enwedig yng Ngwynedd a Phowys, mabwysiadwyd dull 'cusan a chic' i annog y bobl ifanc a dargedwyd i gymryd rhan.

- Amcan prosiectau Caerdydd a Merthyr (FreshStart 3) oedd cadw rhywfaint o gyswllt â dysgu, lle ni byddai dim fel arall.

- Amcan Sir Ddinbych, Casnewydd a Sir Gaerfyrddin oedd cynnal ymrwymiad i addysg ysgol yn y brif ffrwd ar ran pobl ifanc a oedd mewn perygl o ddiflannu o'r golwg

- Ym mhrosiect Rhondda Cynon Tâf, sef y nesaf peth i brosiect gwaith ieuenctid 'traddodiadol' (er bod mwy o dargedu dwys, rhaid cyfaddef), gwelwyd effeithiau cadarnhaol ar ymddygiad yn yr ysgol bron iawn fel sgil-gynnyrch ymyriadau cymunedol.

Fodd bynnag, ni ellir ei ystyried yn gynnig 'cwricwlwm amgen': roedd y bobl ifanc a gymerai ran yng ngwaith y prosiect yn gwneud hynny hyd yn oed os nad oeddynt yn mynychu'r ysgol. Roedd prif gwricwlwm yr ysgol yn dal yn ofynnol trwy'r dydd (er bod peth hyblygrwydd), ac ni chynigiwyd cwricwlwm amgen.

Ni phenderfynwyd cynnwys cwricwla amgen priodol a derbyniol eto. Rhaid gwneud hyn yng nghyd-destun nid yn unig anfodlonrwydd pobl ifanc ar gyfyngiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ond hefyd yng nghyd-destun y ffaith mai cymwysterau academaidd yw'r porth cydnabyddedig i lwyddiant fel oedolyn.

# 9 Arolwg, a barnau am y prosiectau

- Roedd gan y bobl a gymerodd ran ddehongliadau gwahanol iawn o'r rhaglen, beth bynnag oedd amcanion ffurfiol y Rhaglen Bartneriaeth Gwaith Ieuenctid ac Ysgolion (fel y'u hamlinellwyd gan y gweinidog pan gyhoeddodd y pecyn cyllido yn 1998).

- Er enghraifft, defnyddiodd rhai ysgolion y prosiectau fel lle hwylus i adael disgyblion 'problemus' (syndrom y 'bin sbwriel') ac roedd rhai ysgolion am 'adael' plant drwg gyda'r prosiectau er bod eu cymhellion yn fwy canmoladwy.

- Roedd rhai athrawon yn **ddrwgdybus o'r ddarpariaeth** ychwanegol ac yn ddig yn ei chylch.

- Roedd llawer yn edrych ar y prosiectau fel 'pethau da i blant drwg', yn rhannol am fod adnoddau prin yn cael eu defnyddio gan 'blant anobeithiol.' Dywedodd rhai athrawon y dylid defnyddio'r adnoddau hynny mewn ffordd wahanol i wella pobl ifanc fwy ymroddedig, ac yn rhannol oherwydd pryder digon cyfiawn y byddai'r prosiectau'n arwain at well ymddygiad gan ddisgyblion ffiniol a oedd am gymryd rhan ynddynt.

- Dylid ymochel rhag corlannu rhai sydd yn anfodlon ar addysg mewn prosiectau 'gwaith ieuenctid' amgen.

- Rhan o'r pwynt hwn yw a ddylai fod gan y prosiectau gwaith ieuenctid fframwaith gweithredu **'cynhwysol' ynteu'n 'neilltuedig'**.

- Lle'r oedd ffocws prosiect yn aml oddi allan i'r ysgol - gydag unigolion, teuluoedd a chymunedau - ymddangosai fod y cyswllt rhwng **amcanion 'agwedd, presenoldeb a chyflawniad'** y prosiectau a'r ymarfer o ddydd i ddydd braidd yn annelwig.

- Y prif bryder oedd a oedd yn briodol i brosiectau o'r **fath feddu ar agenda addysgol cul**, neu **ynteu a ddylent ymdrin â chysyniad ehangach o ystyr cynhwysiant cymdeithasol**.

- I bob diben, gallasai'r Prosiect Partneriaeth Gwaith Ieuenctid ac Ysgolion fod wedi gweithredu fel prosiect gwaith ieuenctid a/neu droseddau, neu brosiect gwaith ieuenctid a lles cymdeithasol. Gan ei fod yn gysylltiedig ag agenda ysgolion, roedd perygl iddo syrthio rhwng dwy stôl - gan fethu i bobl golwg â chefnogi cynnydd pobl ifanc tuag at ddysgu mewn ysgolion.

- Ni raid cyfeirio at unrhyw ymyriad ymddangosiadol lwyddiannus mewn meysydd eraill (megis cymodi teuluoedd, ymladd defnyddio cyffuriau, hyrwyddo ffitrwydd).

- Dylai **ymarfer ymgysylltiol** o'r fath gael ei adlewyrchu mewn meddylfryd ymgysylltiol wrth lunio a datblygu polisïau a dyma, yn wir, ran o'r cynigion diweddar ar gyfer gwasanaeth cynnal ieuenctid (gweler yr Uned Dieithrwch Cymdeithasol 1999b).

## Materion ymarfer

> Mae 'gweithredu ar y cyd' yn llwyddiannus yn dibynnu ar ymddiriedaeth, parch y naill at y llall a dealltwriaeth, ar adnabod ffiniau ac ar ymdeimlad cryf bod swyddogaethau yn ategu ei gilydd.

Fodd bynnag, mae partneriaeth ddiffiniedig bob amser wedi ei seilio ar **'gydbwysedd bregus' sydd o hyd dan bwysau sefydliadol, proffesiynol ac unigol** (Williamson a Weatherspoon 1985).

Roedd yn eglur bod rhai o weithwyr ieuenctid yr ysgolion **heb deimlo eu bod yn gweithio fel rhan o bartneriaeth**, ond eu bod yn **ddarostyngedig** i ofynion yr ysgol.

Wrth gwrs, roedd ysgolion a fu'n barod i ystyried y prosiect gwaith ieuenctid fel rhywbeth cyfwerth â gweithgareddau eraill yr ysgol neu a oedd o leiaf yn fodlon rhoi amser i brosiect 'brofi' ei werth.

Roedd enghreifftiau ardderchog o ymarfer cyd-ddibynnol. Er enghraifft, gweithwyr ieuenctid anstatudol yr ysgol yn derbyn cefnogaeth gyda'u gwaith gan y gwasanaeth lles addysg neu gan y Cwmni Gyrfaoedd. Bydd rhai beirniaid efallai'n gweld hyn fel glastwreiddio ymarfer neilltuol gwaith ieuenctid neu'n codi'r hen gwestiynau ynghylch 'rheolaeth gymdeithasol', ond mae gweithwyr y prosiectau eu hunain yn gweld profiadau o'r fath mewn ffordd gadarnhaol, a heb deimlo bod hyn wedi tanseilio eu hygrededd gyda phobl ifanc.

## Achrediad dysgu

Mae obsesiwn ar hyn o bryd ag achrediad dysgu, er gwaethaf pryderon ers amser am 'chwyddiant cymwysterau' a gwerth tystysgrifau heblaw cymwysterau academaidd y brif ffrwd.

Bu cryn bwyslais yn y prosiectau a oedd yn rhan o'r Rhaglen Bartneriaeth Gwaith Ieuenctid ac Ysgolion ar 'wneud yn fawr' **o gyraeddiadau pobl ifanc trwy gyfrwng tystysgrifau achrededig**. Yn wir, dywedwyd llawer yng nghynigion y rhan fwyaf o'r prosiectau am ffynonellau achrediad o'r fath.

Roedd y gweithwyr prosiect yn **bryderus ynghylch y pwysau arnynt i ddyfarnu tystysgrifau bob gafael**, gan ensynio bron nad oedd gwerth na phwrpas mewn gweithgaredd heb dystysgrif ar ei chyfer.

Mae angen **darlun ehangach o ystyr cyfranogiad a chyrhaeddiad**, a sut mae cydnabod hynny.

## Gorlwytho

Mynegwyd pryder yn y rhan fwyaf o'r prosiectau am **lefel ac ystod cyfrifoldebau** a ymddiriedwyd i'r gweithwyr ac am ffiniau annelwig y gwaith. Er enghraifft, roedd disgwyl i'r rhan fwyaf ohonynt archwilio gweithgareddau cwricwlaidd amgen, sicrhau bod dysgu'n cael ei achredu, cydlynu a negodi gyda'r ysgolion partner, sefydlu a/neu ddatblygu cysylltiadau rhwng asiantaethau, trefnu rhaglen ymyrryd ar gyfer y bobl ifanc a dargedwyd, ac ymwneud yn uniongyrchol â'r bobl ifanc dan sylw.

Y rhain oedd y gofynion lleiaf bron yn y swydd ddisgrifiadau amodol. Yn ogystal â hyn i gyd, disgwylid i weithwyr y prosiectau gadw cofnodion rheolaidd a manwl o'u cyswllt â phobl ifanc a dargedwyd gan y prosiect, gan nodi eu cynnydd.

Ar y cyfan llwyddodd y prosiectau i greu cysylltiadau â'r mwyafrif o'r grwpiau targed (yn amrywio o ran nifer o ddeuddeg i ychydig gannoedd!).

Nid oedd cyfleoedd dysgu achrededig, ar brydiau, a chysylltiadau (eang) rhwng asiantaethau, y rhan fwyaf o'r amser, ddim yn flaenoriaethau gan y rhan fwyaf o'r prosiectau.

Ar ben hyn, ni bu ymdrech i fynd i'r afael â chadw cofnodion a monitro cynnydd yn fanwl - o leiaf, nid mewn ffordd a fyddai'n addas ar gyfer dadansoddi systemataidd. Mae France a Wiles (1996), wrth werthuso'r Cynlluniau Gweithredu Ieuenctid gwaith ieuenctid ac atal troseddau, **yn feirniadol iawn o fethiant gweithwyr ieuenctid i gynhyrchu data** a fyddai o gymorth wrth fyfyrio am ymarfer a gwerthuso allanol.

# 10 Casgliadau

## Materion Strategol a Pholisi

Ar lefel fwy strategol, bydd yn rhaid i brosiectau yn y dyfodol roi sylw mwy manwl **i ystod o faterion 'fframwaith' y gellir eu troi yn ymarfer effeithiol yn y maes**. Roedd gweithgaredd gwaith ieuenctid rhai o'r ysgolion o reidrwydd yn ad hoc, yn bennaf am nad oeddynt wedi meddwl yn glir am **gwestiynau sylfaenol yn ymwneud â pherthnasoedd a disgwyliadau y ddau brif barti** yn y trefniadau hyn.

Yn y pen draw, fodd bynnag, **mae gan y ddau gyfrifoldeb i gadw pobl ifanc mor agos at ddysgu** â phosibl, gan mai dyma'r warant orau y bydd ganddynt ddyfodol llwyddiannus. Mae athrawon a gweithwyr ieuenctid yn gwybod bod hyn yn wir ac mae angen ymroddiad o **lwyrfryd calon i oresgyn yr anawsterau trwy ymateb yn fwy effeithiol i anghenion pobl ifanc anfodlon**.

Roedd yr ymwneud rhwng gweithwyr ieuenctid ac athrawon yn yr arolwg hwn o'r wyth prosiect yn dameidiog, ond mae'n hanfodol sefydlu **cysylltiadau proffesiynol, ac ymddiriedaeth a pharch** y naill at y llall os yw'r math hwn o ymyriad i fod yn effeithiol.

Rhaid **croesawu ymwneud rhieni â'r prosiectau**, a lle digwyddodd hynny cafwyd canlyniadau a ategodd eu gwaith.

Peth da hefyd oedd cynlluniau priodol i ddatblygu gwaith at y dyfodol, e.e. estyn ymhellach ystod y ddarpariaeth addysgol.

Elfen hanfodol arall i lwyddiant y berthynas rhwng darparwyr y gwasanaethau yw cydweithrediad rhwng asiantaethau, ac felly hefyd cadw cofnod manwl am gynnydd pobl ifanc, gan gynnwys **cofnodion cyfranogiad a chyrhaeddiad ffotograffig i ategu'r dystiolaeth**. Bydd y rhain o fudd i fentrau a pholisïau'r dyfodol.

## Materion Cwricwlaidd

Lle'r oedd prosiectau wedi cynllunio a gweithio mewn gwir bartneriaeth, **roedd cyd-ddealltwriaeth a chydnabyddiaeth o swyddogaethau gwahanol ond cydymddibynnol** y ddau bartner wrth ddarparu'r cwricwlwm.

Gwelwyd ymarfer da lle bu **rhaglenni'n ateb anghenion unigol**. Mae'n bwysig bod rhaglenni'n cael eu cychwyn cyn gynted â phosibl a bod y staff yn ymgymryd â hunanwerthuso ynghylch eu canlyniadau.

Mae'n bwysig bod amrywiaeth o raglenni'n cael eu datblygu a bod **targedau SMART** ar gyfer cyrraedd yr amcanion lle bo hynny'n bosibl. Pwysig hefyd yw eu hachredu er mwyn gwella hunan-werth y bobl ifanc.

## Ysgolion

Gwelwyd nodweddion cadarnhaol yn y partneriaethau gwaith ieuenctid ac ysgolion yr ymwelwyd â nhw. Er enghraifft, lle'r oedd y prosiect yn **rhan annatod o bolisi'r ysgol** oherwydd arweiniad da a phartneriaid a oedd yn deall eu swyddogaeth yn glir. Roedd hyn yn neilltuol o hanfodol gan fod pobl ifanc anfodlon yn teimlo eu bod yn rhan o bolisi'r ysgol ac nid yn rhyw fath o atodiad iddo.

Roedd canlyniadau da i'w gweld hefyd yn y buddiannau a gafodd disgyblion eraill o ran cynnydd a gwell safonau.

Rhaid **llongyfarch ysgolion hefyd ar ethos ac ymroddiad ysgolion** ynghyd ag asiantaethau eraill i ddatblygu polisi ysgol gyfan i ddatrys problemau anfodlonrwydd.

## Gwaith Ieuenctid

Roedd yn amlwg iawn fod angen **gweithwyr ieuenctid profiadol a chymwysedig** ar gyfer y gwaith hwn, sy'n deall y cyfleoedd a'r cyfyngiadau ar yr hyn maent yn ceisio'i wneud fel y gallant weithredu'n effeithiol. Ond rhaid hefyd wrth **gefnogaeth gref** gyda sesiynau goruchwylio digonol a rheolaidd.

Gwelwyd gweithwyr ieuenctid yn annog pobl ifanc i **ddatblygu eu sgiliau allweddol** mewn llythrennedd, rhifedd, TG, datrys problemau a datblygiad personol a chymdeithasol.

Daeth yn eglur bod perthynas gadarnhaol rhwng gweithwyr y prosiectau a phobl ifanc unigol a bod eu **brwdfrydedd a'u hymroddiad** yn hollbwysig i **lwyddiant y prosiectau**.

# Pobl Ifanc

Roedd llawer o ganlyniadau cadarnhaol i'r bobl ifanc. Bu gwelliant amlwg o ran **agwedd a hunan-werth**, a'u cynorthwyodd i ailymaddasu i gymuned yr ysgol ac i **ennill ymddiriedaeth eu cyd-ddisgyblion**. Roedd tystiolaeth hefyd o well presenoldeb a chyraeddiadau ac roedd pobl ifanc yn werthfawrogol o'r gefnogaeth a roddwyd iddynt.

Roedd yn amlwg hefyd bod croeso **i'w cyfraniad** at drafod polisi'r ysgol yn y dyfodol .

Anodd oedd mesur cynnydd a datblygiad o ran agwedd. Ond nodwyd presenoldeb a chyrhaeddiad gyda rhai enghreifftiau nodedig o ymyriadau effeithiol a chadarnhaol gyda rhai o'r bobl ifanc.

# Datblygiad a Hyfforddiant Staff

Wrth gynllunio ar y cyd, mae'n **amlwg bod parch y naill bartner** at y llall yn allweddol i lwyddiant y prosiectau. Mae'n hanfodol bod datblygiad a hyfforddiant staff yn rhan ymhlyg o'r prosiectau hyn. Ni thâl mentro gweithredu ar hap. **Dylid darparu HMS a hyfforddiant arbenigol i bawb sy'n cymryd rhan** fel bod safonau ac ansawdd y ddarpariaeth yn gyson ac yn gwella.

Gallai hyfforddiant mewn sgiliau mentora fod yn briodol ar gyfer rhai sy'n gweithio yn y cyd-destun hwn.

Ar lefel **genedlaethol**, rhaid i **athrawon a gweithwyr ieuenctid fod** â dealltwriaeth fwy eglur o sut mae eu dwy rôl yn ategu ei gilydd yng nghyd-destun anfodlonrwydd ag ysgolion. Mae rhai athrawon yn dal yn ansicr ynghylch athrawiaeth a methodoleg gwaith ieuenctid, tra bod rhai gweithwyr ieuenctid yn dal heb arddel un flaenoriaeth ar gyfer polisi nac un cyd-destun sefydliadol neilltuol.

# Atodiad

## Amcanion, dibenion a nodau'r prosiectau

| PROJECT | AUTHORITY |
|---|---|
| • Ysgol Uwchradd Pen-y-Dre (Fresh Start) | Merthyr Tudful |
| • Rhaglen Dysgu Cefnogol 'Plant y gofelir amdanynt' | Caerdydd |
| • Partneriaeth Ysgol Gyfun Ferndale /Gwaith Ieuenctid | Rhondda Cynon Tâf |
| • Prosiect Partneriaeth Ysgolion a Gwaith Ieuenctid | Sir Gaerfyrddin |
| • Living Proof (Sefydliad gwirfoddol) | Casnewydd |
| • Partneriaeth Gwaith Ieuenctid ac Ysgolion | Sir Ddinbych |
| • Partneriaeth Gwaith Ieuenctid ac Ysgolion Meirionnydd | Gwynedd |
| • Partneriaeth Gwaith Ieuenctid ac Ysgolion (Prosiect Mesen) | Powys |

# MERTHYR TUDFUL

## CEFNDIR

Mae ysgol Pen-y-Dre (Fresh Start) ym Merthyr Tudful ac mae’n derbyn ei disgyblion o’r Gurnos, stad o dai sydd ymhlith y rhai mwyaf difreitniedig ym Mhrydain.

## PWRPAS Y PROSIECT

Ar sail gallu ac agwedd, targedwyd disgyblion Blwyddyn 10 (14-15 year-oed) 1998/1999 a rannwyd yn ddau grwp:

- un grwp yn dilyn cyrsiau TGAU, Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) gyda Gwaith Llaw GNVQ;
- yr ail grwp yn gwneud TGAU mewn Technoleg, Mathemateg a Gwyddoniaeth, rhaglenni ABCh a chyrsiau gyda’r Rhwydwaith Coleg Agored - (Rhoi Cedyd i Bobl ifanc).

Trwy gydol y cwrs cefnogwyd y grwpiau uchod gan weithiwr ieuenctid. Roedd gan y gweithiwr ieuenctid rôl amlweddog, ond yr elfen allweddol oedd datblygu perthynas gyda phobl ifanc unigol er mwyn rhoi cefnogaeth emosiynol a deallusol iddynt mewn ffordd heb fod yn feirniadol.

Gweitherdai’r gweithiwr ieuenctid fel **eiriolwr, mentor, cynghorydd ac arweinydd, oedolyn i ymddiried ynddo neu ynddi tra’n ceisio hyrwyddo** hyder, hunan-barch a gwerth pobl ifanc, trwy ddefnyddio technegau gwaith ieuenctid.

Gweithiodd y gweithwyr ieuenctid hefyd **gyda’r rhieni**, gan eu cefnogi a’u hannog i gymryd rhan mewn cyfleoedd addysgol.

Y gweithiwr ieuenctid fyddai’r cyswllt â’r ysgol, ac â’r asiantaethau allanol a weithiai gyda’r grwp hwn o bobl ifanc yn yr ysgol.

Roedd yn rhaid i'r gwaith a wnaed ymgysylltu â gwerthoedd craidd cenadwri'r ysgol i:

- codi cyrhaeddiad
- gwella presenoldeb
- hybu hunan-werth

**Y gwerthoedd yw:**

- parch i bobl eraill
- parch i chi'n hun
- gwaith caled
- chwilfrydedd allusol

Roedd cynlluniau gweithredu eisoes yn bod ar gyfer pob disgybl yn yr ysgol. Dilynir codau ymddygiad a gwaith (wedi eu seilio ar yr uchod) bob wythnos a'u gweithredu.

Roedd y prosiect i ymgysylltu hefyd â strategaethau a chynlluniau datblygu eraill a oedd o asiantaethau, colegau a grwpiau eraill a oedd yn weithgar ym Merthyr a'r cyffiniau.

Edrychodd y prosiect yn benodol ar anghenion:

- tangyflawnwyr
- disgyblion anfodlon
- rhai yr oedd yr ysgol yn mynd yn fwy amherthnasol iddynt

## TARGEDAU

- 90% o'r cyfranogwyr yn y cwrs i ennill graddau TGAU neu Dystysgrif Addysg mewn tri phwnc;
- 90% o'r cyfranogwyr yn y cwrs i ennill braddau D-G mewn pum pwnc neu gymwysterau GNVQ cyfatebol;
- presenoldeb o 85% gan y cyfranogwyr;
- 90% i fynd ymlaen i ddilyn rhyw fath o hyfforddiant, addysg bellach neu gyflogaeth;
- nodi newid agwedd erbyn dechrau Blwyddyn 10 (14-15 oed) hyd at ddiwedd Blwyddyn 11 (15-16 oed).

## PROSES WERTHUSO

- cyfweliadau gyda chyfranogwyr
- cyfweliadau gydag athrawon a darparwyr eraill
- cyfweliadau gyda rhieni
- arsylwi gan gyfoedion
- cyfweliadau gyda rheolwyr cadwyn
- dilyn hynt disgyblion trwy godau cyfeiriad disgyblion

**Cynhelir yr holl raglen ar safle arall**. Bydd y ddau grwp yn dilyn rhaglen astudiaethau craidd, gan gynnwys gwell mynediad i adnoddau prosesu geiriau, astudio sgiliau allweddol trwy gyfrwng TG, **profiadau preswyl, ond uwchlaw popeth mynediad at y gweithiwr cefnogol**.

# CAERDYDD

## CEFNDIR

Anelwyd y prosiect yng Nghaerdydd yn benodol at '**bobl ifanc y gofelir amdanynt**', a 50% ohonynt ag anawsterau dysgu sylweddol.

## PWRPAS Y PROSIECT A DATGANIAD O FWRIAD

Trwy ddarparu strategaeth amgen, yn corffori egwyddorion Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid Cymru, cynigiodd y prosiect amrywiaeth o raglenni dysgu. Cynlluniwyd pob rhaglen benodol i annog cynnydd o ran cymhelliad ymhlith y **cyfranogwyr er mwyn eu hailgysylltu ag addysg** y brif ffrwd a/neu gyfleoedd hyfforddiant yn ystod ac ar ôl eu cyfnod mewn gofal. Y disgwyl oedd y byddai'r cynllun blaengar hwn yn creu awyrgylch pwrpasol, yn yr ystyr bod **darpariaeth cyfleoedd addysgol yn beth y rhoddir sylw iddo o fewn gofal preswy**l.

## GRWP TARGED

Pobl ifanc y gofelir amdanynt yn Sir Caerdydd sydd:

- ar fin cael eu gwahardd yn barhaol;
- wedi cael eu gwahardd neu mewn lleoliadau addysg rhan-amser;
- yn gwrthod mynychu lleoliadau ffurfiol.

Amcan y prosiect yw gweithio gyda phobl ifanc y gofelir amdanynt mewn **chwech uned breswyl yng Nghaerdydd**.

Byddai hyn yn cael ei gyflawni trwy ddarparu **rhaglenni gwaith wedi eu negodi'n unigol**, mewn nifer o gyd-destunau, a allai gynnwys:

> addysg sylfaenol, TGCh, gwaith ar faterion, sgiliau bywyd a chymdeithasol, addysg awyr agored, gweithgareddau arbenigol e.e.: celfyddydau, chwaraeon, profiad gwaith – gan ddefnyddio sefydliadau addysg gymunedol, adrannau sirol eraill yn ogystal â busnesau a diwydiant lleol.

- cyfleoedd i gymryd rhan mewn ystod o gyrsiau achrededig;

- cymryd rhan o bosibl mewn rhaglenni dysgu amgen cyfredol;

- tîm y prosiect i gynnwys cydlynydd y prosiect a thîm o fentoiaid - mentor ar gyfer pob un sy'n cymryd rhan yn cynnig cynghori a chefnogaeth trwy gydol y rhaglen.

- Gweithiodd staff y prosiect ar y cyd â gweithwyr gofal, athrawon, gweithwyr ieuenctid eraill, swyddogion lles addysg, grwpiau cymunedol, busnesau lleol ac asiantaethau eraill i sicrhau bod y profiadau a gynigiwyd yn rhai priodol ac yn fodd i hwyluso'r broses o ailintegreiddio.

- Aeth cydlynydd y prosiect â’r tîm mentora ati’n rheolaidd i adolygu cynnydd unigolion. Cynigiodd panel o swyddogion adrannol sirol wasanaeth cefnogi a mentora.

## RHAGLENNI DYSGU AMGEN
## I RAI O BLANT SIR CAERDYDD Y GOFELIR AMDANYNT

### AMCANION

Defnyddio strategaeth amgen i hyrwyddo cymhelliad pobl ifanc mewn gofal preswyl er mwyn eu hailgysylltu â’r broses ddysgu.

### NODAU

- negodi rhaglenni **dysgu realistig ac unigol** yn cynnwys ystod o gyfleoedd addysgol ffurfiol ac anffurfiol;
- annog cyfranogi mewn ystod o **gyrsiau achrededig**;
- sefydlu **portffolio cofnodion cyrhaeddiad** ar gyfer pob un sy’n cymryd rhan;
- yn ôl y galw, **darparu lleoliadau gwaith ystyrlon a phriodol**;
- cynnig i bobl ifanc o oed ysgol, yn enwedig yng **Nghfnod Allweddol 3, y cyfle i ailafael mewn darpariaeth addysgol yn y brif ffrwd**;
- cynnig **cefnogaeth a chyfarwyddyd** trwy gydol y prosiect er mwyn galluogi cyfranogwyr i **ddatblygu hunan-barch** a hyder trwy roi **gwybodaeth ychwanegol a sgiliau newydd iddynt**;
- darparu cyfleoedd i gyfranogwyr **fod yn gyfrifol** am lunio agweddau ar eu rhaglenni dysgu;
- annog cyfranogwyr i ddatblygu **eu diddordebau** eu hunain;
- cydlynu ag ysgolion, adrannau eraill y cyngor ac asiantaethau, busnesau lleol a grwpiau cymunedol **i sefydlu rhwydwaith adnoddau** trwy gydol y prosiect;
- sefydlu system **effeithiol** i **werthuso** datblygiad y prosiect fel yr â ymlaen;
- **cadw cysylltiad** â deunaw o bobl ifanc a nodwyd ar ddechrau’r prosiect sydd wedi gadael gofal;
- sicrhau bod **cynnydd** yn cael ei gynnal a’i ddatblygu gyda’r bobl ifanc hyn.

Cododd nifer y cyfranogwyr wrth i bobl ifanc eraill gyda phroblemau addysgol disodli rhai yn gadael gofal. **Cedwir cysylltiad â rhai sy’n gadael**.

## MONITRO A GWERTHUSO

Mabwysiadwyd y trefniadau canlynol gan weithwyr y prosiect:

- adolygu **presenoldeb unigolion** mewn lle dysgu y cytunwyd arno, bob dydd;
- cynnal **cyfweliadau wythnosol** gyda phob person ifanc er mwyn **asesu cynnydd**, llunio maes gwaith a thrafod datblygiad y portffolio;
- cysylltu’n rheolaidd â’r tîm tiwtorial, tiwtoriaid arbenigol a/neu oruchwylwyr lleoliadau gwaith;
- cyflwyno **adroddiadau wythnosol i Swyddog Addysg y Sir** ar ddatblygiad y prosiect;
- **cynnal cyfarfodydd bob mis** gyda **rheolwyr gofal preswyl**.

Cynhaliwyd cyfarfodydd y grwp llywio lleol bob mis i asesu cynnydd ac ystyried strategaeth.

## CANLYNIADAU DISGWYLIEDIG A MESURAU PERFFORMIAD

- darparu **rhaglenni dysgu penodol i bawb sy’n cymryd rhan**;

- **50%** o’r grwp targed i gymryd rhan mewn **cyrsiau achrededig**;

- darparu portffolio **cofnod cyrhaeddiad i bawb sy’n cymryd rhan**;

- **darparu** rhaglenni profiad gwaith i bawb sy’n gymwys;

- **presenoldeb llawn** ym mhob rhaglen a negodwyd;

- llenwi ffurflenni **hunanwerthuso** ar ddiwedd pob uned ddysgu;

- **darparu sesiynau** cefnogi bob wythnos i’r bobl ifanc mewn gofal a nodwyd a phob pythefnos i rai sydd wedi gadael gofal.

# RHONDDA CYNON TÂF

## CEFNDIR A LLEOLIAD Y PROSIECT

Anewlyd y prosiect at bobl ifanc yn mynychu Ysgol Gyfun Ferndale, sy'n derbyn disgyblion o gymunedau'r Rhondda Fach. Mae **statws cymdeithasol ac economaidd** cymunedau Penrhys, Tylorstown a Maerdy i gyd yn isel, ac maent yn dioddef gan lawer o'r problemau a gysylltir â '**chymunedau difreintiedig**'.

Roedd ffactorau eraill a arweiniodd at adnabod yr ysgol/gymuned hon fel canolbwynt y rhaglen, sef:

- Mae gan Ysgol Gyfun Ferndale '**lefelau presenoldeb is na'r cyffredin**'. O'u cymharu ag ysgolion eraill yn Rhondda Cynon Tâf.

- Mae'r **prifathro'n uwch weithiwr ieuenctid** yn un o ganolfannau ieuenctid yr awdurdod. Mae felly'n bleidiol i athrawiaethau a dulliau gwaith y gwasanaeth ieuenctid.

- Mae **dau sefydliad gwirfoddol**, Strategaeth Adnewyddu Cymunedol Blaenllechau a'r Ffatri Gelf yn weithgar yn y gymuned ac maent yn cydweithio â'r ysgol fel partneriaid yn y Fenter Mynediad Ieuenctid Cymru.

## RÔL Y GWEITHIWR IEUENCTID

- **gweithio gyda phobl** ifanc a'u teuluoedd i'w helpu **i oresgyn rhai o'r rhwystrau ymddangosiadol ar** bresenoldeb rheolaidd yn yr ysgol.

- **dod yn rhan** o'r rhaglen ehangach o gyfleoedd sydd ar gael i'r grwp targed a'u **cefnogi**;

- bod yn rhan grwp llywio'r rhaglen;

- ymdrin ag **anghenion unigol** pobl ifanc yn y grwp targed, sy'n cael eu lleisio naill ai gan y bobl ifanc eu hunain, neu a welir yn eu hagwedd a'u hymddygiad;

- hyrwyddo **cynllun Triwanta** cymunedol;

- trefnu'r elfen **dysgu oddi allan i'r ysgol** yn y rhaglen o weithgareddau.

## CYMHELLIAD A HUNANDDIBYNIAETH

Defnyddiodd cyfranogwyr y **rhaglen cymhelliad a huinanddibyniaeth** 'Breakthrough' a redir gan Sefydliad yr Iwerydd. Mae'r rhaglen fideo hon yn annog pobl ifanc i fod yn fwy **hunanddibynnol** trwy eu herio i fod **yn gyfrifol** am eu gweithredoedd eu hunain, yn hytrach na rhoi'r bai am eu hymddygiad anghymdeithasol - efallai - ar ddifaterwch cymdeithas.

Roedd hon yn rhaglen flaengar ac arbrofol, a ganiataodd i'r bobl ifanc hyn **osod eu nodau eu hunain** ar gyfer gwella eu hamgylchiadau. Defnyddiwyd cynnydd tuag at gyrraedd y nodau hyn wrth werthuso llwyddiant, neu ddiffyg llwyddiant, y dull arbrofol hwn. Bydd gwahoddiad i rieni ymgymryd â'r rhaglen gyfatebol 'Steps to Excellence', a eglurir yn Rhaglen Sefydliad yr Iwerydd.

Bydd y grwp partneriaeth yn ystyried hefyd sut i gyflwyno **dull mentora gan gyfoedion** yn yr ysgol, i ategu'r cynllun mentora a redir gan staff yr ysgol ar hyn o bryd.

Rhoddwyd **ymgynghorydd personol** i pawb a gymerodd ran, a'i cyfeiriodd at y cyfleoedd yn y rhaglen. Roedd modd **negodi** ynghylch yr **ymgynghorydd a ddewiswyd** a gallai gynnwys athro neu athrawes yn yr ysgol, gweithiwr ieuenctid, swyddog lles addysg neu u o staff y sefydliadau gwirfoddol partner. Gweithredai'r staff i eirioli ar ran eu pobl ifanc.

## ACHREDU A CHYDNABOD CYFRANOGIAD Y BOBL IFANC

Rhagwelwyd y byddai'r rhaglen yn cynorthwyo pobl ifanc i **ailafael ym mhroses ddysgu'r ysgol**, ac felly bydd mynediad i gyfleoedd achredu cyfredol yr ysgol. Bydd systemau **achredu/cydnabod eraill** ar gael i'r bobl ifanc hefyd, megis:

- Gwobr Dug Caeredin;
- cofnod cyrhaeddiad gwaith ieuenctid;
- achrediad y Rhwydwaith Coleg Agored;
- tystysgrifau cymorth cyntaf/glanweithdra bwyd sylfaenol;
- dathlu cyflawniadau cyfranogwyr (seremonïau gwobrwyo, adroddiadau yn y wasg ac ar y cyfryngau).

# SIR GAERFYRDDIN

## CEFNDIR

Sefydlwyd y prosiect i weithio gyda thair ysgol uwchradd yn ardal Llanelli/Cwm Gwendraeth. Mae ardal yr ysgolion yn ymestyn dros 11.5% o holl dirwedd Cymru, ond nid yw'n gartref ond i 5.8% o boblogaeth Cymru. Mae'n ddiddorol nodi bod 65% o'r trigolion yn ne-ddwyrain y sir. Mae 54.8% o boblogaeth breswyl Sir Gaerfyrddin **yn siarad Cymraeg**. Mae gan yr iaith le pwysig ym mywyd Sir Gaerfyrddin, yn enwedig yn rhannau gwledig y sir.

Bu cyswllt traddodiadol ardal Llanelli a diwydiannau trwm y glofeydd, dur a thun. Wrth i'r diwydiannau hyn ddirywio, mae'r ardal wedi wynebu problemau. Mae ymchwil wedi tynnu sylw at **wendidau economaidd difrifol** yn y rhan hon o Sir Gaerfyrddin.

## AMCANION A PHWRPAS

Cynnwys pobl ifanc 11-16 oed o'r ysgolion targed **sydd mewn perygl o gael eu gwahardd o'r ysgol neu wedi cael eu gwahardd yn barod**, mewn prosesau a fydd yn eu galluogi i wneud penderfynu ynghylch eu dysgu a'u datblygiad personol eu hunain.

## AMCANION A NODAU

Ymgysylltodd y rhaglenni hyn â mentrau a oedd eisoes ar waith yn Nyffryn Aman a thref Caerfyrddin. Manteisiodd y rhaglenni ar y profiadau a gafwyd o'r prosiectau hyn a'u datblygu.

Ymhlith y mentrau a oedd yn bod, caed dau weithiwr estyn a chydlynydd ysgol-ganolog, yn derbyn nawdd gan yr ERDF a'r Fenter Mynediad Ieuenctid, sydd ar hyn o bryd yn gweithio gyda phobl ifanc ddifreintiedig yng ngogledd ac yn nwyrain ac yng ngorllewin y sir. Mae datblygiad y fenter hon wedi creu cyfle tebyg i bobl ifanc yn nwyrain y sir. Wedi ei ganoli'n bennaf ar dref, a fydd yn gwneud rhywfaint o blaid gweithredu **ymateb strategol** i bwnc anfodlonrwydd ymhlith pobl ifanc Sir Gaerfyrddin.

Ffocws y prosiect hwn oedd gwaith gyda thair ysgol gyfun yn yr ardal, **dwy mewn ardaloedd trefol ac un yng nghefn gwlad Cwm Gwendraeth**, sydd rhyngddynt yn darparu ar gyfer rhyw 2,400 o ddisgyblion 11-16 oed. Bu peth ymwneud hefyd â'r Uned Cyfeirio Disgyblion.

## NODAU'R PROSIECT

Amcan y Rhaglen Bartneriaeth Gwaith Ieuenctid ac Ysgolion oedd cynorthwyo'r ysgolion targed i gefnogi plant anfodlon neu ar fin dod yn anfodlon trwy:

- sefydlu meini prawf ar gyfer dethol disgyblion ag angen cefnogaeth arnynt gan ddarparu system i adnabod lefel y gefnogaeth;
- sefydlu rhwydwaith rhwng ysgolion, rhieni, disgyblion ac asiantaethau arbenigol i asesu anghenion unigolion;
- cynorthwyo i ddatblygu cynghorau ysgol;
- datblygu cynllun mentora gan gyfoedion achrededig;
- hwyluso dod â phobl leol adnabyddus i fywyd yr ysgol;
- datblygu cwricwlwm hyblyg i'r grwp targed;
- hyrwyddo 'bod yn rhieni synhwyrol' trwy ddatblygu grwpiau cefnogol i rieni;
- ffurfio a hyfforddi tîm o oedolion i gefnogi mentoriaid sy'n ddisgyblion;
- edrych ar dechnegau dysgu amgen i'r garfan darged (ar y cyd â'r Feneter Mynediad Ieuenctid);
- archwilio cyfleoedd hyfforddi mentoriaid mewn cwmnïau sy'n cynnig profiad gwaith;
- gweithio gyda'r ieuenctid anfodlon a dargedwyd i asesu pam maen nhw'n mynd yn anfodlon a'u cynnwys mewn ystyried ffyrdd o atal pobl ifanc eraill rhag mynd yn anfodlon yn y dyfodol;
- cynorthwyo i gyhoeddi cyfeiriadur darpariaeth ieuenctid i Sir Gaerfyrddin.

# CASNEWYDD

## CEFNDIR

Mae Living Proof yn ddarparwr gwaith ieuenctid a phlant a hyfforddiant o safon ac enw rhagorol iddo ym mhob cymuned mae' gweithio ynddi. Mae gwasanaethau cymdeithasol, ysgolion (cynradd ac uwchradd), mudiadau gwirfoddol eraill a rhieni wedi canmol ei waith.

Mae'r prosiect yn golygu cyswllt uniongyrchol rhwng Living Proof ac Ysgol Gyfun y Betws yng Nghasnewydd. Mae'r ysgol yn denu plant o ddalgylchoedd yn dioddef lefelau uchel o broblemau cymdeithasol ac economaidd.

Gall yr ysgol ddisgwyl i ryw 28% o'i disgyblion ennill pum gradd TGAU A-C erbyn blwyddyn 11 ac i 10-12% o ddisgyblion Blwyddyn 10 fod yn anfodlon neu'n rhannol anfodlon oherwydd ystod o broblemau. Fodd bynnag, wrth gyrraedd yr ysgol ym Mlwyddyn 7, bydd oed darllen oddeutu 73% o'r disgyblion dan y cyfartaledd ac mae canran y disgyblion heb ennill pump neu ragor o raddau TGAU A-C yn 72%.

## AMCAN A PHWRPAS Y PROSIECT

Trwy raglen o addysg anffurfiol a gofal bugeiliol, yn yr ysgol ac oddi allan, bydd pobl ifanc anfodlon a rhai mewn perygl o ddod yn anfodlon yn datblygu hyder a hunan-barch. Bydd cyfranogwyr yn gallu ymddiddori mewn dysgu a hunanddatblygiad gan ennill y gallu i gyrraedd a datblygu eu potensial llawn o ran ymddygiad ac agwedd gymdeithasol, foesol ac addysgol.

### Amcan Penodol Rhif 1 (Blwyddyn 7)

Atal a newid y dirywiad cymdeithasol, moesol ac addysgol ymhlith pobl ifanc ym Mlwyddyn 7 sy'n cael yr anawsterau isod wrth gyrraedd yr ysgol, a'u hailgysylltu â dysgu, yr ysgol, eu cartrefi a'u cymunedau:

- esgeulustod yn y cartref;
- methu â dygymod â'r ysgol ac â phobl eraill;
- diffyg sgiliau cymdeithasol a sgiliau allweddol;
- bwlio/pwysau o du cyfoedion;
- problemau cyffredinol o ran cymhelliad, hyder a hunan-werth.

### Nodau

- Mynd â phob grwp i ffwrdd yn ei dro, gyda staff perthnasol, ar wyliau preswyl er mwyn hybu **gwaith tîm a delio** â **bwlio a phwysau o du cyfoedion**.

- Ar sail y gwyliau hyn ac yn ystod y flwyddyn, gweithio gyda staff yr ysgol i adnabod a darparu ar gyfer unigolion o bob gallu sydd mewn angen trwy waith unigol, yn y **sgiliau allweddol (e.e. llythrennedd)**, cefnogaeth i astudio gartref a/neu anogaeth i astudio a chyflawni eu llawn botensial.

- **Datblygu cysylltiadau gyda rhieni** fel eu bod yn chwarae rôl fwy gweithredol gyda'u plant eu hunain. Gweithio gydag asiantaethau lleol i ymdrin ag esgeulustod ac ag anallu i ddygymod ag ymddygiad, twf a datblygiad plant yn eu harddegau ac i archwilio'r rôl gadarnhaol y gallant ei chware yn addysg a datblygiad eu plant.

- **Cyfryngu rhwng rhieni** a'r ysgol lle mae'r berthynas rhwng plant ac athrawon wedi torri i lawr neu lle mae diffyg cyfathrebu.

## Amcan Penodol Rhif 2 (Blwyddyn 8)

Atal a newid y dirywiad cymdeithasol, moesol ac addysgol ymhlith pobl ifanc Blwyddyn 8 sydd wedi gwella ond sy'n dal ar i lawr ac yn **dal heb wella** o ran hyder, hunan-werth, ymddygiad a gwaith ysgol.

### Nodau

- Dal i **ddarparu cefnogaeth gyda'r sgiliau sylfaenol** (e.e. llythrennedd) i unigolion a grwpiau bychain ynghyd â chefnogaeth i astudio yn yr ysgol ac oddi allan i rai sydd wedi dangos eu bod yn gwella.

- Cydlyn ag ysgolion i **ddarparu gofal bugeiliol a chefnogaeth i astudio** i bobl ifanc sy'n **dal i gael trafferthion** ac sy'n anfodlon neu wedi eu dadrithio. Byddai hyn yn cael ei wneud trwy gyfrwng cefnogaeth unigol, gwaith mewn grwpiau bychain, gwaith mewn timau a gwyliau preswyl.

- Parhau i sefydlu a **datblygu cysylltiadau** â chartrefi er mwyn cynnig cefnogaeth ac eirioli i'r rhieni ac ar sail y rhain gweithredu rhaglen anffurfiol i addysgu rhieni yn y pethau canlynol:

  - y pwysau ar bobl yn eu harddegau;

  - pwysigrwydd dysgu/cyflawni ac addysg;

  - sut i helpu eu plant yn yr ysgol;

  - pwysigrwydd hunan-werth ac aogaeth i'w plant.

## Amcan Penodol Rhif 3 (Blwyddyn 10 ac 11)

**Hybu hunan-werth a hunanhyder** ac awydd i dyfu a datblygu ymhlith pobl ifanc Blwyddyn 10 ac11 sydd heb hyder yn eu galluoedd neu eu sgiliau ac sydd heb fawr o ddiddordeb mewn addysg ffurfiol nac awydd i lwyddo a chyflawni.

### Nodau

- Annog pobl ifanc i nodi unrhyw ddiddordebau ac yna eu cymell i **ddylunio a / neu gymryd rhan mewn prosiectau cymunedol**, lleoliadau a hyfforddiant ymarferol yn ymwneud â'u diddordebau. Y meysydd hyfforddi cyfredol yw: gweithio gyda phlant, clybiau ôl-ysgol, sgiliau/lleoliad mewn

swyddfa, prosiectau amgylcheddol, cyfryngau/cyfathrebu, cymorth cyntaf, prosiectau cymunedol ymarferol, ymweld â'r henoed a'r methedig i'w helpu.

- Bydd y prosiectau/lleoliadau/hyfforddiant yn gwella eu doniau, eu sgiliau a'u diddordebau gan arwain at hunan-werth, hyder, cymhelliad ac awydd i ddysgu, cyflawni a chyrraedd eu llawn botensial.

- Annog pobl ifanc i ddefnyddio eu doniau a'u sgiliau er eu lles eu hunain a lle pobl eraill gan greu cyfle i dyfu a datblygu'n bersonol mewn amgylchiadau diogel a di-straen lle gellir gwneud cymeriadau ac adennill hyder.

- Darparu cyfleodd/prosiectau ar gyfer achrediad, tystysgrifau a chyflawniad i'r bobl ifanc hynny a fyddai fel arall yn dod i ben â'u haddysg ffurfiol heb gymwysterau nag unrhyw fath o gofnod cyrhaeddiad.

## Amcan Penodol Rhif 4

Parhau i adnabod, archwilio a datblygu sgiliau a mentrau newydd i leihau ac atal anfodlonrwydd a chychwyn anfodlonrwydd, a hyfforddi gweithwyr i barhau â'r gwaith hwn a'i ddatblygu.

## Nodau

- **parhau i ddatblygu rhaglenni newydd** er mwyn cyrraedd y bobl ifanc hynny sy'n dal yn anfodlon;

- sicrhau **proses atal ac adfer** yn y tymor hir ar ôl Blwyddyn 8 hyd ddiwedd yr ysgol;

- gweithio gydag **asiantaethau eraill** er mwyn cael syniadau newydd a datblygu **dull cydweithredol** o drin unigolion;

- **dyfeisio rhaglen hyfforddi** i ddenu a hyfforddi gweithwyr i barhau â'r ddarpariaeth a'i hehangu a'i hymestyn i feysydd cyfredol a newydd.

# SIR DDINBYCH

## CEFNDIR

Mae Sir Ddinbych yn ymestyn o'r Rhyl yn y gogledd i Langollen yn y de. Mae poblogaeth fawr ar arfordir y gogledd a phrif ffynhonnell cyflogaeth yw'r diwydiant ymwelwyr tymhorol. Mae'r de gwledig yn llai poblog gyda chymunedau mewn pentrefi a threfi marchnad Dinbych, Rhuthun, Corwen a Llangollen.

Mae poblogaeth breswyl o dros 90,000 yn y sir, a chwarter y boblogaeth honno'n byw yn Y Rhyl, ynghyd â thros 1.5 miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn. Canran yr ystod oedran 16-29 oed yw 15%. Mae nifer fawr o ddynion di-waith yn Y Rhyl (16.4%) a menywod di-waith (9.9%), sef dros ddwywaith cyfartaledd y sir. Yn Y Rhyl mae dros hanner rhieni sengl Sir Ddinbych's 16-24 oed.

## PWRPAS Y PROSIECT

Cyfunwyd gwaith y Prosiect Gwaith Ieuenctid ac ysgolion â **gwaith a wnaed gan y Fenter Mynediad Ieuenctid**. Er mwyn i'r cynllun gweithredu lwyddo roedd yn hanfodol bod y prosiect yn meithrin cysylltiadau â pholisïau, strategaethau a datblygiadau a wneir gan y gwasanaeth ieuenctid a'r Adran Addysg.

Cyflwynwyd y prosiect a'r cyllid fel pecyn cydlynol yn adlewyrchu cyfuno gwahanol ffynonellau nawdd. Ceir tair ysgol yn y prosiect, a ddaeth yn rhan o gynnig gwreiddiol y fenter mynediad ieuenctid ac a ariannwyd ar y cyd gan fenter Cyngor Ieuenctid Cymru a'r Swyddfa Gymreig, CELTEC, colegau addysg bellach ac Adran Addysg y Sir.

Y **ddwy ysgol a dargedwyd** oedd **Ysgol Uwchradd Y Rhyl**, sy'n sefyll mewn ardal drefol gydag anfanteision, ac **Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun**, sy'n gwasanaethu cymuned wledig yn bennaf.

## AMCANION A NODAU

### Amcan strategol

Dod â gwasanaethau ynghyd â'u cydlynu er mwyn gwneud **ymyriadau priodol gyda phobl ifanc** yng Nghyfnodaau Allweddol 3 a 4 i **ymdrin ag achosion eu hanfodlonrwydd**.

### Nodau a methodoleg

- Dod â gwasanaethau ynghyd a **chydlynu adnoddau i drafod anfodlonrwydd** trwy sicrhau cefnogaeth ysgolion, cwmnïau gyrfaoedd, gwasanaethau lles addysg, y gwasanaeth ieuenctid, CELTEC, colegau addysg bellach a sefydliadau eraill er mwyn sicrhau cefnogaeth briodol gan weithwyr cymdeithasol addysgol, cynghorwyr gyrfaoedd, seicolegwyr addysg ac ymgynghorwyr addysg.

- **Cefnogi datblygiad** emosiynol, addysgol, iechyd a chymdeithasol pobl ifanc trwy:

- asesu anghenion y bobl ifanc a dargedwyd a datblygu proffiliau disgyblion;
- cynnig cyfleoedd addysg anffurfiol, trwy weithgareddau, gwaith grwp, dysgu a chefnogaeth gan gyfoedion;
- cynnwys pobl ifanc mewn gweithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys ymarferion i feithrin hyder trwy ddefnyddio modelau megis:

**Y rhaglen pobl ifanc**
**Y rhaglen cyswllt ieuenctid**
**Y rhaglen materion allweddol/sgiliau allweddol**
**Gweithredu cynllun ‘os mêt, mêt’**

- Gwella taith y bobl ifanc a dargedwyd i waith, addysg bellach a hyfforddiant trwy:

Cynorthwyo pobl ifanc i nodi gyrfa, a’u cefnogi gyda rhyddhad ar gyfer lleoliadau gwaith, coleg neu gynlluniau hyfforddi addas eraill, lle gall pobl ifanc ennill profiad ymarferol gwerthfawr ac ennill cymwysterau perthnasol e.e. credydau’r Rhwydwaith Coleg Agored, sgiliau allweddol NPRA, NVQ, GNVQ.  Cynnwys oedolion yn hytrach nag athrawon fel modelau a mentoriaid

**Dangosyddion perfformiad**

- lleihad yn nifer y plant yn cael eu hatal neu eu gwahardd;
- lleihad mewn cyfeiriadau tymor byr i unedau cyfeirio disgyblion;
- gwell lefelau presenoldeb;
- tystiolaeth o gofnodion y bobl ifanc, e.e. enghreifftiau o ddisgyblion mwy hyderus;
- lefelau cyfranogiad pobl ifanc yng ngweithgareddau’r rhaglen e.e. gweithgareddau allgyrsiol, Gwobr Dug Caeredin, gyda’u cyd-ddisgyblion;
- cofnod o sylwadau gan wasanaethau eraill a rhai sy’n cymryd rhan yn y prosiect;
- cofnod o ymatebion disgyblion a dargedwyd;
- defnyddio offer profi a phroffilio dethol e.e. proffilio morrisbury;
- datblygu’r data a ddarparwyd trwy’r system fonitro a chofnodi a ddatblygwyd gan y prosiect.

# GWYNEDD

## CEFNDIR

Mae a wnelo'r prosiect hwn yn uniongyrchol â phartneriaeth rhwng y gwasanaeth ieuenctid a thair 'o'r pump ysgol uwchradd ym Meirionnydd, Gwynedd. Mae'r ardal hon yn wledig yn bennaf ac mae'r Gymraeg yn brif iaith yno. Gan fod mewnlifiad wedi bod o Loegr, yn enwedig canolbarth Lloegr, mae llawer o bobl ddi-Gymraeg hefyd. Er ei bod yn ardal wledig, mae problemau ynddi a gysylltir â threfi mawr. Mae unigedd gwledig a lefelau uchel o ddiweithdra yn yr ardal. Ceir tair ysgol y bartneriaeth yn nhrefi Dolgellau, Blaenau Ffestiniog a'r Bala.

## AMCANION

Gweithio gyda phobl ifanc o'r **ysgolion uwchradd a dargedwyd** ym Meirionnydd, sydd neu sydd mewn perygl o ddod yn anfodlon ar addysg, eu hailgysylltu **â'r broses** ddysgu, a'u **cymell dderbyn cyfrifoldeb** am eu dysgu a'u **datblygiad personol**.

## AMCANION A METHODOLEG

**Darparu pecynnau unigol i ddisgyblion**

Tasgau allweddol

- arweinydd y prosiect i feithrin perthynas unigol â phob person ifanc;
- llunio proffil personol ar gyfer pob person ifanc;
- gweithredu fel mentor/tiwtor personol i bob person ifanc;
- darparu pecyn dysgu cynlluniedig ar sail anghenion unigol.

**Ffurfio cysylltiadau â rhieni neu warcheidwaid**

Tasgau allweddol

- ffurfio perthynas â rhiant neu warcheidwad;
- cefnogi'r rhiant/rhieni i gefnogi'r person ifanc yn yr ysgol;
- archwilio cysylltiadau posibl gyda chynlluniau dysgu teuluol yn y cylch.

**Cydweithio â'r ysgol i wella sgiliau allweddol**

**Tasgau allweddol**

- sefydlu lefel cyrhaeddiad mewn rhifedd, llythrennedd, TGCh a chynorthwyo pobl ifanc i wella lle bo angen;
- lle bo hynny'n ymarferol, gweithio gyda'r disgybl mewn cyd-destun addysgol amgen;
- darparu rhaglenni dysgu amgen e.e. Headstart, Success Maker ayb;
- gwella cymhelliad trwy feithrin hunan-werth a hyder.

**Gweithredu cyfleoedd dysgu ychwanegol**

**Tasgau allweddol**

- sefydlu Cofnod Cyrhaeddiad Sirol o fewn cyd-destunau gwaith ieuenctid;
- hyrwyddo'r cynllun gydag arweinwyr gan dynnu sylw at y buddiannau;
- gweithio tuag at dystysgrifau cofnod cyrhaeddiad i'w dyfarnu gan Wynedd;
- gweithgareddau allgyrsiol megis achub bywyd a Gwobr Dug Caeredin;
- adnabod canolfannau dysgu oddi allan i'r ysgol e.e. cyrsiau TG, clybiau chwaraeon;
- gweithgareddau preswyl yn canolbwyntio ar waith grwp;
- clybiau gwaith cartref;
- archwilio'r posibilrwydd o sefydlu prosiect gyda'r cynllun Menter Ifanc;
- nodi ffynonellau cyllid i ddarparu datblygiad ychwanegol yn y maes hwn, e.e. Cronfa Cyfleoedd Newydd ayb.

## Ffurfioli cysylltiadau gyda pholisïau'r staff/ysgol trwy:

- annog cydlynydd y prosiect i **feithrin perthynas â staff yr ysgol**;
- cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda **phenaethiaid blwyddyn**;
- defnyddio **strategaethau adborth** i staff yr ysgol a all fod yn bryderus ynghylch datblygiad disgyblion;
- **gwobrwyo** gwelliannau o ran **agwedd, presenoldeb ac ymddygiad**;
- cyflwyno darpariaeth ieuenctid y sir i ddisgyblion a'u **hannog** i'w defnyddio.

## Tasgau allweddol

Adnabod clwb/darpariaeth ieuenctid i bob person ifanc sy'n **addas ar gyfer eu hanghenion** a'u diddordebau lle bo hynny'n bosibl, mewn un o'r sefydliadau a ganlyn:

- clybiau ieuenctid statudol
- Clybiau Ffermwyr Ifainc
- Aelwydydd yr Urdd
- adrannau ieuenctid clybiau chwaraeon
- unrhyw ddarpariaeth ieuenctid gydnabyddedig arall e.e. TA, Sgowtiaid, Geidiaid

- cefnogi pobl ifanc i **ddefnyddio'r ddarpariaeth**;
- cysylltu ag arweinwyr clybiau, a darparu cefnogaeth, er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn derbyn c**yfleoedd dysgu o fewn cyd-destun gwaith ieuenctid**, **a darparu** cefnogaeth i bobl ifanc a staff, os bydd problemau gydag ymddygiad;
- lle ni bo hyn yn bosibl, darpariaeth hamdden **amgen** mewn cyd-destun **gwaith grwp** a chreu timau;
- gweithio gyda fforymau ieuenctid yr ysgolion, a fforwm ieuenctid Meirionnydd i alluogi pobl ifanc a **darparu cyfleoedd eirioli iddynt**;
- gweithredu ar ran pobl ifanc i geisio datrys problemau sy'n eu hwynebu yn yr ysgolion ac mewn cyd-destunau gwaith ieuenctid.

**Tasgau allweddol**

- cwrdd â phob person ifanc yn unigol i drafod unrhyw broblemau sydd ganddynt, neu broblemau sydd wedi cael eu cyfeirio at y gweithiwr ieuenctid, a chytuno ar gynllun gweithredu gyda'r person ifanc i ymdrin â'r materion hyn;
- cynnig cyngor a chefnogaeth i bobl ifanc ar lefel bersonol;
- cynnig hyfforddiant mewn mentora i staff gwaith ieuenctid;
- hyrwyddo perthynas fwy cadarnhaol rhwng disgyblion a staff yr ysgol;
- galluogi pobl ifanc i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth ofynnol a'r rhinweddau personol fel eu bod yn barod ar gyfer gwaith.

**Tasgau allweddol**

- gweithio ar CVs
- sgiliau cyfweld
- cyswllt â'r gwasanaeth gyrfaoedd, cynlluniau gwaith ayb
- cyswllt ag asiantaethau eraill dan gontract e.e. Compact Plus, GNVQ

# POWYS

## CEFNDIR

Powys sydd â'r boblogaeth deneuaf (0.2 person yr hectar), o bob sir yng Nghymru a Lloegr.

Bu cynnydd yn y boblogaeth yn ddiweddar, yn bennaf oherwydd mewnfudo gan gynnwys canran uchel o bobl wedi ymddeol. Y disgwyl yw y bydd nifer yr hen bensiynwyr yn tyfu 40% yn ystod y 15 mlynedd nesaf. Mae cyfleoedd gwaith, gyrfa a chymdeithasol yn brin, sy'n gwneud problem allfudo pobl ifanc o'r ardal yn waeth fyth.

Canolfan weinyddol yr ardal yw tref farchnad Aberhonddu, ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Canolbwynt y prosiect yw Cwm Tawe Uchaf, yng nghyffiniau Ystradgynlais, tref ail fwyaf yr ardal. Bu unwaith yn ardal lofaol, ond mae wedi dioddef gan y dirywiad a fu mewn cynifer o gymoedd glofaol yng Nghymru.

## AMCANION

Amcan y prosiect yw **darparu cyfleoedd addysgol amgen** i bobl ifanc sydd naill ai'n cael trafferth i gael mynediad i addysg a hyfforddiant y brif ffrwd, neu sy'n methu ymgynnal yn y cyd-destun hwnnw.

- Mae'n cynnwys disgyblion sy'n **mynychu'r ysgol yn afreolaidd neu ddim o gwbl**, neu sydd wedi eu gwahardd dros dro neu'n barhaol.

- Mae'r grwp targed yn cynnwys hefyd y disgyblion hynny sy'n mynychu'r ysgol ond sydd wedi **colli pob diddordeb yn eu profiad addysgol -** yn yr ysgol ond heb fod yn dysgu.

- Y bwriad yw darparu cynllun i **wrthweithio anfodlonrwydd** yn y dyfodol gan ailgysylltu'r bobl ifanc anfodlon hynny ag addysg.

- **Rhoi i bobl ifanc** y wybodaeth angenrheidiol i wneud **dewisiadau deallus ynghylch eu dyfodol**.

- Annog **cydlyniad a chydweithrediad** rhwng asiantaethau er mwyn gwneud yn fawr o'r adnoddau i ddatrys y broblem.

- **Osgoi dyblygu** gwaith a dod yn rhan o brosiectau cyfredol megis cynlluniau galwedigaethol, Mentrau Mynediad Ieuenctid Access, prosiectau dan nawdd GEST a phrosiectau eraill megis cynlluniau dan adain yr AALl.

- Sefydlu **panel o'r gwahanol asiantaethau i hwyluso gweithio ar y cyd**.

## GRWP TARGED

Y bwriad cychwynnol **yw targedu disgyblion anfodlon neu wedi eu gwahardd** yn Ysgol Gyfun Maesydderwen a phobl ifanc eraill a waharddwyd neu a gyfeiriwyd o ysgolion eraill yn ardal Sir Frycheiniog.

## NODAU ADDYSGOL

**Ar y cyd â'r ysgol, y bwriad** yw cynnig cyfleoedd i **ailgysylltu pobl ifanc â'r broses addysg**. Y bwriad hefyd yw ehangu'r ystod o opsiynau addysg sydd ar gael i bobl ifanc trwy gynnig:

- cyrsiau mynediad at addysg bellach;
- cyngor gyrfaoedd/profiad gwaith/agweddau ar fod yn gyflogadwy;
- gwella hunan-werth/hunanhyder/sgiliau cyflwyno;
- cyrsiau ymarferol yn cynnig gwobrau Coleg Agored, NVQ a GNVQ;
- sgiliau allweddol - addysg sylfaenol a TG;
- Cynllun Gwobr Dug Caeredin;
- Cynllun Cydnabod Cyrhaeddiad (Gwasanaeth Ieuenctid Sir Frycheiniog).
- addysg iechyd a sgiliau bywyd.

### Gall y pynciau a drafodir gynnwys:

- ymwybyddiaeth o gyffuriau ac alcohol
- rhywioldeb/cynllunio teuluoedd
- perthnasoedd
- materion iechyd personol
- cyllid a chyllido
- sgiliau rhieni

# Geirfa

| | | |
|---|---|---|
| CELTEC | - | Cymdeithas Cynghorau Hyfforddiant a Menter Cymru |
| CLAIT | - | Llythrennedd Cyfrifiadurol a Thechnoleg Gwybodaeth |
| COE | - | Tystysgrif Addysg |
| CV | - | Curriculum Vitae |
| D of E | - | Gwobr Dug Caeredin |
| DfEE | - | Adran Addysg a Chyflogaeth |
| ERDF | - | Y Gronfa Ddatblygiad Rhanbarthol Ewropeaidd |
| ESTYN | - | Swyddfa Gymreig Arolygydd Ysgolion Ei Mawrhydi yng Nghymru |
| EWO | - | swyddog Lles Addysg |
| FE | - | Addysg Bellach |
| GCSE | - | Tystysgrif Addysg Gyffredinol |
| GEST | - | Cefnogaeth a Hyfforddiant Addysgol Cyffredinol |
| GNVQ | - | Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol Cyffredinol |
| IAP | - | Rhaglen Weithredu Unigol |
| TGCh | - | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu |
| TG | - | Technoleg Gwybodaeth |
| JNC | - | Cyd-gyngor Negodi |
| AALl | - | Awdurdod Addysg Lleol |
| NRA | - | Cofnodion Cyrhaeddiad Cenedlaethol |
| NVQ | - | Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol |
| OCN | - | Rhwydwaith Coleg Agored |
| PRU | - | Uned Gyfeirio Disgyblion |
| ABCh | - | Addysg Bersonol a Chymdeithasol |
| SMART | - | Penodol Mesuradwy Cyraeddadwy Realistig yn ôl Amserlen |
| TEC | - | Cyngor Hyfforddiant a Menter |
| CIC | - | Cyngor Ieuenctid Cymru |

# Cyfeiriadau


**Ball, M.** (1998), School Inclusion: The School, The Family, and The Community, York: Joseph Rowntree Foundation

**Bentley, T.** (1999), Learning Beyond the Classroom: Education for a Changing World, London: Routledge/DEMOS

**Bentley, T. and Gurumurthy, R.** (1999), Destinations Unknown: Engaging with the problems of marginalised ieuenctid, London: DEMOS

**Adran Addysg a Chyflogaeth** (1999a), Symud i fyny: sut mae gwaith ieuenctid yn codi cyrhaeddiad ac yn hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, Sheffield: Adran Addysg a Chyflogaeth

**Adran Addysg a Chyflogaeth** (1999b), Dysgu Llwyddo: fframwaih newydd ar gyfer dysgu ôl-16, Cm 4392, London: Llyfrfa Ei Mawrhydi

**Pwyllgor Dethol Addysg a Chyflogaeth** (1998), Plant Anfodlon, 5ed Adroddiad, Llundain Llyfrfa Ei Mawrhydi

**France, A. a Wiles, P.** (1996), Evaluation of the Youth Action Scheme, London: Adran Addysg a Chyflogaeth

**Hand, J.** (1995), Raising Standards in Schools: The Youth Work Contribution, Leicester: Youth Work Press

**Jeffs, A.** (1979), Young People and the Youth Service, London: Routledge and Kegan Paul

**Jeffs, T. and Smith, M.** (1996), Informal Education - conversation, democracy and learning, Derby: Education Now Publishing Co-operative

**Kealy, L.** (1996), Rhoi Credyd i Bobl: Y Rhaglen Pobl Ifanc’s, Caerffili: Cyngor Ieuenctid Cymru

**Maychell, K. Pathak. S. a Cato, V.** (1996), Providing for Young People: Local Authority Youth Services in the 1990’s, Slough: National Foundation for Educational Research

**McGivney, V.** (1999), Excluded Men: Men who are missing from education and training, Leicester: NIACE

**Merton, B.** (1998), Finding the missing: action-research into disaffection and the non-participation of young adults in education, training and employment in three areas of England and Wales, Leicester: Youth Work Press

**National Youth Agency** (1992), Report on the Third Ministerial Conference on the youth service, Leicester: National Youth Agency

**National Youth Bureau** (1990), Danger or Opportunity: Towards a Core Curriculum for the youth service? Leicester: National Youth Bureau

**Parsons, C.** (1995), National Survey of Local Education Authorities' policies and procedures for the identification of, and provision for, children who are out of school by reason of exclusion or otherwise, London: Department for Education

**Pearce, N. a Hillman, J.** (1998), Wasted Youth: raising achievement and tackling social exclusion, London: Institute for Public Policy Research

**Smith, C., Farrant, M. a Marchant, H.** (1972), The Wincroft Youth Project: a social work programme in a slum area, London: Tavistock

**Smith, M.** (1998), Developing Youth Work, Milton Keynes: Open University Press

**Uned Dieithrwch Cymdeithasol (**1998a), Triwanta a Dieithrwch Cymdeithasol, Llundain: Llyfrfa Ei Mawrhydi

**Uned Dieithrwch Cymdeithasol** (1999b), Pontio'r Bwlch: Cyfleoedd Newydd i bob 16-18 oed Heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant, Llundain: Llyfrfa Ei Mawrhydi

**Cyngor Ieuenctid Cymru** (1992), Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid Cymru, Caerffili; Cyngor Ieuenctid Cymru

**Cyngor Ieuenctid Cymru** (1998), Y Rhaglen Bartneriaeth Gwaith Ieuenctid ac Ysgolio: Adroddiad Dros Dro, Caerffili: Cyngor Ieuenctid Cymru

**Swyddfa Gymreig** (1998), Rhywbeth i bawb yw dysgu, Llundain: Llyfrfa Ei Mawrhydi

**Williamson, H. a Weatherspoon, K.** (1985), Strategies for Intervention: an approach to youth and community work in an area of social deprivation, Uned Ymchwil Gymdeithasol Prifysgol Cymru Caerdydd